

ECO'R WYDDFA

Rhif 181

GORFFENNAF 1992

Pris 25c.

CAU TAIR GORSAF YR HEDDLU

Gall gorsafoedd yr heddlu yn Neiniolen, Llanrug a'r Waunfawr gael eu cau cyn bo hir. Dyna a ddigwyddai os caiff yr argymhellion a gyflwynir gerbron Awdurdod Heddlu'r Gogledd ar Orffennaf 17 eu derbyn. Gorsaf yr heddlu yn Llanberis fyddai'r unig un ar ôl ym mro'r Eco wedyn.

Y mae'r Prif Gwnstabl, David Owen, yn dadlau bod arolwg manwl wedi ei wneud o drefniadaeth bresennol Heddlu'r Gogledd, ac y dylid cau 62 o orsafoedd gwledig. Byddai hyn yn ei farn ef yn golygu y gellid mynd ati i ail drefnu gwasaneth yr heddlu yn fwy effeithiol. Cafodd y cynllun i ail drefnu'r gwasanaeth a chau'r gorsafoedd ei egluro i'r Awdurdod ar Fehefin 17, a'r bwriad yw y caiff ei dderbyn gan Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod ar Orffennaf 17.

Tybed a yw mis yn amser digonol i aelodau'r Awdurdod allu trafod y mater yn eu cymunedau a dod i benderfyniad. Byddai derbyn y drefn newydd yn golygu colli presenoldeb yr heddlu o lawer i gymuned wledig. Bu'r berthynas agos rhwng plismyn lleol â'i gymuned yn werthfawr dros y blynyddoedd. Mae yna ddigon o bryder eisoes nad yw'r plismyn lleol erbyn hyn yn cael treulio digon o amser yn y pentrefi.

Mae hyd yn oed y Prif Gwnstabl yn cydnabod mai dim ond 11.7 y cant o'u horiau gwaith y mae'r plismyn lleol yn ei roi i'w hardaloedd ar hyn o bryd. Mae'n dadlau wedyn y byddai'r drefn newydd yn golygu y byddai tîm o blismyn yn gweithio 'yn gyfan gwbl' yn eu hardaloedd eu hunain ac y byddai plismyn o hyd yn byw ac yn gweithio yn eu cymunedau. Mae siarad cyffredinol

fel yna yn swnio'n dda, ond beth yn union ydi ei ystyr? Byddai'n dda cael gwybod sut yn union y mae'r Prif Gwnstabl am sicrhau cryfhau y cysylltiad rhwng yr Heddlu â'r cymunedau gwledig yn hytrach na'i wanhau. Bu cryn sôn yn ddiweddar am grwpiau *figilante* yn cael eu ffurfio i warchod cymunedau. Nid yw'r Heddlu am weld grwpiau o'r fath diolch am hynny. Ond rhaid i'r Heddlu fedru rhoi gwasanaeth cryf ac effeithiol er sicrhau nad yw cymunedau'n teimlo rheidrwydd i ffurfio grwpiau felly.

Tybed beth yw barn darllenwyr yr *Eco* ynglŷn â'r mater yma. Ydi hi'n bwysig cadw'r gorsafoedd hyn yn agored? Sgwennwch atom i ddweud eich barn neu sgwennwch at y Prif Gwnstabl ei hun yn y Pencadlys ym Mae Colwyn.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD



Aelodau parti adrodd Ysgol Brynrefail a enillodd y wobwr gyntaf rhwng 15 a 19 oed yn Eisteddfod Bro Glyndŵr.

Llongyfarchiadau i holl blant ac ieuencid y fro a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Bro Glyndŵr yn Rhuthun. Cafodd y canlynol eu gwobrwyo:

Elin Dafydd, Llanrug, adrodd 8-10 oed, ail;

Ysgol Brynrefail, parti adrodd 15-19 oed, cyntaf;

Nia Land, Llanddeiniolen a Ceri, Caeathro, deuwad 15-19 oed, trydydd;

Y Meniacs, Ysgol Brynrefail, gwaith llafar ar dâp, blwyddyn 7, ail;

Grŵp Liam, Ysgol Llanrug, gwaith creadigol 3D, blwyddyn 3 a 4, cyntaf.

Yr oedd y canlynol yn aelodau o fand creadigol neu grwpiau gwaith creadigol Ysgol Pendalar a gafodd sawl gwobr yn y gwahanol adrannau: Gareth Roberts, Dylan Jones, Darren Jones a Janet Pitts, Llanberis, ac Iwan McKerracker, Cwm-y-glo.



Rhai o aelodau Antur Padarn gyda chynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd, Cyngor Arfon, Y Cyngor Cefn Gwlad, Tai Cymru, Targed, a Phwyllgor Tywysog Cymru. Gwelir y stori'n llawn ar dudalen 4.

DAU DDIRGELWCH

Bu dau ddirgelwch mawr yn ystod y mis diwethaf. Y naill yn Waunfawr yn dipyn o hwyl, ond y llall yn Neiniolen yn ddifrifol iawn. Ond tybed nad ydi'r ddwy stori mewn rhyw ffordd yn dweud am yr angen i gael plismyn lleol sy'n adnabod eu cymuned ac sydd wrth law o hyd at wasanaeth y cymunedau hynny?

Stori ryfedda'r mis oedd yr un am y mwnci yn Waunfawr. Gwelwyd y creadur ar do tŷ yn hwyr y nos efo erial teledu yn ei law. Diflannodd wedyn i'r coed, ac er na welwyd o wedyn, roedd ei swm i'w glywed o'r coed. Anfonwyd plismyn o Gaernarfon i chwilio amdano, ond erbyn iddyn nhw gyrraedd roedd y mwnci wedi diflannu. Ac er bod Hywel Gwynfryn wedi bod wrthi ar Radio Cymru'n annog ardal gyfan i chwilio amdano ni welwyd mo'r mwnci na'r erial ers hynny. Doedd y darlledwr mawr, druan ohono fo, ddim yn siŵr iawn ai jôc oedd y cyfan ai peidio.

Stori gwbl wahanol a gafwyd yn

Neiniolen; stori ddifrifol a fu'n gryn sioc i lawer yn yr ardal. Roedd mwy na digon o blismyn yno am rai dyddiau yn cadw golwg ar fwthyn ar gyrion y pentref. Buont yn chwilio'n fanwl o gwmpas y tŷ, a neb o'r pentrefwyr yn gwybod beth oedd yn digwydd. O'r diwedd daeth y newydd mai Uned Gyffuriau yr Heddlu a fu yno, a bod y bwthyn wedi cael ei ddefnyddio fel math o ffatri i gynhyrchu cyffuriau anghyfreithlon. Ers hynny cafodd pump o ddynion o ardal Lerpwl eu harestio a'u cyhuddo o gynhyrchu cyffuriau yn y bwthyn. Amser a ddengys beth a ddaw o'r achos hwn a beth yn union a fu ar droed yno.

Caban BT yn cael ei oleuo gan rym Melin Wynt

Yn ôl pob sôn mae cynllun arloesol i oleuo cabanau teleffon â grym melin wynt yn cael ei brofi gan BT yng ngogledd Cymru.


Bu peiriannwyr BT yn codi melin wynt ar bolyn teleffon ger caban ffôn ar lannau Llyn Gwynant yn ddiweddar. Mae'r model cyntaf hwn, sy'n un o'r ychydig iawn sydd ar gael ar hyn o bryd, yn cael ei arbrofi, ond os bydd y profion yn gadarnhaol, yna gallai cabanau ffôn yn cael eu gyrru gan felin wynt fod yn olygfa arferol yng nghefn gwlad.

Yn ystod y misoedd nesaf, dywed BT y bydd dwsinau o felinau gwynt bach i'w gweld ar bolion teleffon mewn rhannau anghysbell o'r wlad wrth iddynt gynnal arbrofion ar weithio ag ynni gwahanol.

Yn ogystal â'r buddiannau amlwg a allai ddeillio o gynllun felly, gall hefyd fod yn rhatach i'w osod. Cafodd y caban cyntaf o'r math hwn ei osod yng Ngŵyl Gerddi Cymru yng Nglynebwy fis diwethaf.

Mae'r felin wynt yn cyflenwi batri â digon o bŵer i oleuo'r caban am 15 diwrnod, ac awel fechan yn unig sydd eisiau i droi'r llafnau. Daw'r golau ymlaen yn awtomatig gyda'r nos drwy gyfrwng sensor golau. Os welwch chi un o'r melinau gwynt yma wedi ei gosod ym mro'r Eco cofiwch roi gwybod i ni. Byddai llun yn well byth.

Ond am y tro, dyma lun model o un o hen felinau'r fro; melin Crawia, a enillodd wobwr i Ysgol Llanrug yn Eisteddfod Bro Glyndŵr.



ECO'R WYDDFA

**RHIF 181
GORFFENNAF 1992**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Y TÎM GOLYGYDDOL

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: Caernarfon 5649)

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: Llanberis 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115).

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stâd Tŷ
Hen, Waunfawr, (Waunfawr 599).

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT:

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deinioelen (Llanberis 871259)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Flynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn, (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MEDI 10

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS LUN

AWST 31

os gwelwch yn dda

DYDDIADAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570)

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 27	DINORWIG	Mr MEIRION TOMOS	Llanberis 870056
HYDREF	HYDREF 1	PENISARWAUN	Mrs ANN EVANS	Llanberis 872481
TACHWEDD	HYDREF 29	CWM-Y-GLO	Mrs IRIS ROWLANDS	Llanberis 872275
RHAGFYR	TACHWEDD 26	LLANBERIS	Mr GWILYM EVANS	Llanberis 872034

Llythyrau

CEISIWCH AM Y SWYDDI HEDDIW

Annwyl Olygydd,

Caniatewch i mi atgoffa darllenwyr
yr Eco bod Cwmni EURO/D.P.C.
eisoes wedi cychwyn ar y gwaith o
hysbysebu swyddi ar gyfer eu ffatri
newydd ar safle Glyn Rhonwy,
Llanberis. Os am geisio am y swyddi
hyn neu am sicrhau gwybodaeth
pellach amdanynt, yna deallwn bod
yn rhaid i BAWB gysylltu a'r Ganolfan
Waith. Y cyfeiriad yw **Y Ganolfan
Waith, Adeiladau'r Llywodraeth,
Penrallt Uchaf, Caernarfon. Rhif ffôn:
Caernarfon 76347.**

Felly cysylltwch â hwy heddiw —
a phob lwc.

GLYN TOMOS
(Cadeirydd Antur Padarn)

Cynllun Cynnal Dioddefwyr Gogledd Cymru

Annwyl Olygydd,

Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i
adael i'ch darllenwyr wybod am
gynllun a sefydlwyd i roddi cymorth
i'r rhai hynny yn ein mysg fu mor
anffodus â dioddef o ganlyniad i
droseddau.

Cymdeithas wirfoddol ydym
wedi'n cysylltu'n glôs â chymdeithas
genedlaethol sy'n gyfrifol am dros
400 o gynlluniau tebyg yng Nghymru
a Lloegr.

Ein hamcan yw defnyddio
gwirfoddolwyr i roddi cymorth i bobl
ddod i delerau â'r trauma sy'n
digwydd yn aml o ganlyniad i
droseddau. Mae'r gwirfoddolwyr yma
yn cael eu dewis yn ofalus ac yn
derbyn hyfforddiant trwyadl mewn
cynghori a chyfweld; deall dull o
weithredu yr heddlu, atal troseddau;
iawndal anafiadau troseddol a dull o
weithredu yswiriant. Fe allant felly roi
cymorth ar lefel emosiynol ac ar lefel
ymarferol.

Mae'r gwasanaeth a gynigir
gennym yn rhad ac am ddim ac yn
gyfrinachol ac, fel arfer, mae'r
gwirfoddolwyr yn ymweld â'r
dioddefwyr yn eu cartrefi.

Os oes unrhyw un ymhlith eich
darllenwyr eisiau gwybod mwy am
y Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr a'r
hyn a allwn ei gynnig, neu os oes
rhywun â ddiddordeb mewn bod yn
wirfoddolwr / wraig yna mae croeso
iddynt gysylltu â Mrs Suzanne Fisher
ar Bangor 352604 neu Mrs Ann
Parry ar Bangor 370471.

Yr eiddoch yn gywir,
Mrs ANN PARRY
Uwch-drefnydd

Bara Sinsir

Annwyl Olygydd,

Mae Bara Sinsir Bangor a'r Cylch
(Gingerbread) yn grŵp hunan-
gynhaliol ar gyfer rhieni wrth eu
hunain. Rydym yn cyfarfod ar foreau
Llun rhwng 10.30 a 12.30 yn Anecs
St. Paul, Ffordd Sackville, Bangor, ac
mae cyfleusterau yno ar gyfer plant
yn ogystal a chyfle am banded a
sgwrs i'r rhieni.

Ar hyn o bryd rydym yn ceisio
sefydlu cynllun gofal-dydd
dwyieithog ym Mangor, ond dim ond
megis dechrau ar y gwaith yr ydym.

Mae holiaduron Cymraeg a
Saesneg wedi eu hysgrifennu i geisio
canfod beth yw anghenion pobl leol
— efallai y gwelwch chi rhain yn o
fuan wrth fynd a'ch plentyn i'r ysgol
feithrin neu'r ysgol, neu efallai gan
eich ymwelydd ieuchyd.

Rydym wedi sefydlu pwyllgor ar
gyfer y gwaith o ddechrau ar y
cynllun, a buaswn yn ddiolchgar am
unrhyw awgrymiadau, neu gymorth
o unrhyw fath. Yn wir, os hoffech roi
help llaw — peidiwch ag oedi . . .
ffoniwch un ai Delyth ar Bangor
370330 neu Juliet ar Bethesda
602767.

Cofiwch ddefnyddio'r rhifau ffôn
hynny hefyd os ydych yn magu plant
neu blentyn ar eich pen eich hun, ac
yn meddwl dod draw i ymuno â ni
rhyw ben, neu os am sgwrs neu
gyngor.

Yn gywir,
DELYTH ROBERTS

Tiwtoriaid

Annwyl Ddarllenwyr,

Tybed a fyddai gan rai ohonoch chi
ddiddordeb mewn derbyn
hyfforddiant fel tiwtoriaid i ddysgu
Cymraeg i oedolion? Cynigir yr
hyfforddiant am ddim trwy gyfres o
ysgolion undydd (ar ddyddiau
Sadwrn ym Mangor, fel arfer), gyda
chyfleoedd hefyd i fynd i weld

dosbarthiadau ar waith. Yr unig
gymhwyster cwbl angenrheidiol
ydy'r gallu i ddod ymlaen efo pobl o
bob math. Mae'r gwaith dysgu ei hun
yn anffurfiol iawn ac yn
canolbwyntio ar waith sgwrsio yn
hytrach na chyflwyno gramadeg ac
ati.

Fedwrn ni ddim rhoi sicrwydd i neb
y bydd gwaith ar gael wedyn, ond
gyda thros gant o ddosbarthiadau'n
cyfarfod bob wythnos, fore,
prynhawn a nos ledled Gwynedd,
mae 'na obaith! Mater o fod yn y lle
iawn ar yr amser iawn pan fydd
bwllch yn codi ydy hi, a dweud y
gwir. Fel arfer, bydd tiwtor newydd
yn dechrau trwy gymryd un wers yr
wythnos, ond buan iawn y gall y
gwaith gynyddu, os bydd yn cael
hwyl arni. Efallai y dylwn nodi bod y
gwaith yn talu'n gymharol dda hefyd.

Os oes genrych ddiddordeb yn y
maes, beth am ddod i'r sesiwn
hyfforddiant ragarweiniol a gynhelir
ym Mangor ar ddydd Sadwrn, 5ed
Medi? Bydd hwn yn gyfarfod ysgafn
ac anffurfiol na fydd yn eich clymu
mewn unrhyw ffordd.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â fi:

ELWYN HUGHES

Tiwtor-Drefnydd

Cyrsiau Cymraeg i Oedolion

yng Ngwynedd

Prifysgol Cymru, Bangor.

Ffôn: (0248) 382259

DRAENOG

Mae Band Llanrug yn gofyn i
drigolion y fro ddyfalu faint o
amser fydd un o gyn-olygyddion
yr Eco yn ei gymryd i gwblhau
Ras yr Wyddfa. Yn ôl pob sôn
mae gwraig o Fethel wedi cael
cryn bleser, ac wedi talu am y
faint, o gael ysgrifennu
'orffenith o byth' ar draws ei
thocyn. A finnau'n meddwl mai
ond y fi oedd yn hen beth bach
pigog!

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

Annwyl Olygydd,
Mewn ateb i'ch cais am fwy o wybodaeth ynghylch Capel Wesla Tabernacl, Deiniolen: cofiaf yr achlysur yna yn dda. Canmlwyddiant yr achos Wesleidd yn (Ebenezer) Deiniolen. Nid yr hen gapel fel y gwyddom ni amdano. Yn Stryd y Tabernacl oedd y Capel Wesleidd cyntaf.

Dyma'r llythyr a anfonais i'r aeloda a chyn-aelodau ar y pryd.

Am y llun swyddogion a gweinidogion, yn yr ail lun mae tri yn fyw; Mr Richard Jones B.Sc. (Sgwll), Abergele; Mr Meirion Davies, Gwyrfa Terr.; Y parch Emrys Wyn Evans, Gweinidog y capel Pontarddulais yn awr.

Y tri gweinidog yn y llun mawr:- y diweddar J. Gwyn Jones, Emrys Wyn Evans, a'r diweddar R. H. Pritchard.

Enwau rhai o'r plant:- 1. Jennifer Williams, 2. Magwen Jones, 3. Cynthia Yond, 4. Valerie Basil Jones, 5. ?, 6. Gareth Basil Jones, 6. Hefin Williams, 7. D. Arthur Williams, 8. Meirion Williams, 9. Glyn Shadrach Jones. Mae ? wrthenw Cris. Ie Robert David Jones ydi o. Mae Cris yn enw lleol arno (fy nhad).

Bu cyfarfod yn y capel hefyd ar ddydd Sul Mehefin 26ain gyda'r Parch. John Lewis, y Parch R. H. Jenkins a Robert Berwyn Roberts yn annerch y cyfarfod dathlu am 2 o'r gloch a'r Parch Meilir Penant Lewis yn pregethu am 10 o'r gloch a chwech o'r gloch.

(Amgaeaf y wledd yn yr ysgol i ddathlu.

Yn gywir
J Eirlys Williams
3 Pentre Helen
Deiniolen

Colofn Nawdd Cymdeithasol

LWFAN GWARCHEIDWAD (Guardian's Allowance)

Os ydych yn maglu plentyn amddifad ac yn derbyn Budd-dâl Plant (Child Benefit) drosto/drosti, neu, mewn rhai amgylchiadau, plentyn sydd wedi colli un rhiant yn unig, efallai eich bod yn deilwng o Lwfans Gwarcheidwad. Nid oes rhaid i chwi fod yn warcheidwad cyfreithiol i'r plentyn.

Mae'r lwfans yn £10.85 yr wythnos ac yn daladwy drwy lyfr archebion mewn swyddfa bost. Nid yw'r lwfans yn drethadwy ond gall effeithio ar rai budd-daliadau eraill.

Dylir hawlio Lwfans Gwarcheidwad ar ffurflen BG1, sydd ar gael yn eich swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol, neu drwy ffonio Llinell Ddi-dâl Gymraeg Nawdd Cymdeithasol ar **0800 289011**. Ni fyddwch yn talu

Annwyl Olygydd,

Dichon eich bod bellach wedi cael atebion di-rif ynglŷn â dyddiad dathlu Canmlwyddiant Capel Wesle, Deiniolen, sef Tabernacl. Cefais alwad ffôn ynglŷn â'r llun gan fy mrawd, Gwynfor, o Watford, sy'n derbyn yr Eco o'r Waunfawr. Hefyd, anfonodd Morris, fy mrawd hynaf gopi i mi yr un wythnos gan ddweud, 'Mae'n siŵr y byddi eisiau sgwennu!'

Fel y mae'n digwydd, mae gennyf luniau gwreiddiol fy hun gan fy mod yn un o'r criw sydd yn y llun cyntaf. 1960 oedd y flwyddyn, blwyddyn gorffen ysgol a dechrau coleg i mi.

Daw'r lluniau ag atgofion lu i'm cof, yn wir gallaf enwi'r mwyafrif sydd yn y ddau lun. Dad, sef Hughie Gordon Hughes (Huw bach, Berthen Gron — nid Beren Gron!) yw'r un ar y dde yn y rhes gefn o lun y dynion. Y Parchedig Emrys Evans yw'r gweinidog yn y canol sy'n eistedd wrth ochr W. J. Parry (tad Gwenlyn). Ai'r Parchedig Gwyn Jones yw'r un ar y chwith, a (?) Pritchard ar y dde. Rwy'n meddlw fy mod yn gywir yn dweud mai'r Parchedig Emrys Evans a Mr Richard Jones, B.Sc., cyn-brifathro'r ysgol yw'r ddau sy'n fyw heddiw. Mor addas oedd cael Mr Richard Jones a W. J. Parry, y blaenor plant yn eistedd ar y blaen yn eu mysg.

Coffa da gennyf am ddyddiau dedwydd iawn gynt yn Neiniolen, ar yr aelwyd ym Mhentre Helen ac fel aelod o'r Tabernacl. Mawr yw fy nyled i'r 'hen gapel bach' a ddysgodd i mi werthfawrogi a pharchu y pethau gorau mewn bywyd ag i rieni annwyl a chydwybodol a fu'n gyfrifol am feithrin yr un egwyddorion.

Erys yr hud am blentyndod mor hapus a gofalus gyda mi am byth. Credaf mai ategu hyn a wna'i Morris, Buddug a Gwynfor hefyd.

Diolch i Stanley am gyflwyno'r lluniau i'ch sylw. Ai y Stanley yma tybed oedd yn eistedd tu ôl inni fel teulu yn y Capel? Fe hoffwn gael gwybod pa fis yn 1960 y bu'r dathlu'r canmlwyddiant.

Yn gywir iawn,
ENID ROBERTS
(Hughes, 48 Pentre Helen, gynt)
Siabod,
Yr Ala,
Pwllheli.

(Diolch yn fawr i Mrs Roberts hefyd am ei rhodd anrhydeddus o £10 i goffrau'r Eco er cof am ei diweddar rieni Mr a Mrs Hughie Gordon Hughes.)

am yr alwad a chewch gyngor am unrhyw fater arall yn ymwneud â Nawdd Cymdeithasol os mynnwch.

● Os ydych am fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol eleni, cofiwch alw i'n gweld yn safle'r Asiantaeth Budd-daliadau. Cewch sgwrs a phaned.

RHODDION

£10: Er cof am Mr a Mrs Hughie Gordon Hughes, gan Mrs Enid Roberts; Er cof am Edward John Williams, Llys Iorwerth, Y Wern, Felinheli, gynt o Bron y Waun, Penisarwaun, oddi wrth ei briod a'r plant a'i frawd.

£5: Teulu y ddiweddar Mrs Elisabeth Jones (9 Maes Eilian, Dinorwig, gynt); Mrs Mair Morris, 23 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Doris Owen a Ieuan, 6 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Helen Roberts, 32 Pentre Helen, Deiniolen; Barry a Gillian Price, 4 Tai Gerddi, Deiniolen; Mrs Megan

Jones, 12 Glanffynnon, Llanrug; W. Jones, Dreflan, Llanberis; Mr a Mrs M. Roberts, 2 Plas Tirion Terrace, Llanrug.

£3.50: Maureen Rhys.

£3: Mrs Mary Evans, 6 Llwyn, Rhosgadfan; Gwyneth ac Eifion, Llanberis.

£2: Teulu Jeff Williams, 46 Pentre Helen; Sandra ac Ifan Lloyd Evans, Groeslon; Mrs Anne Thomas, 4 Bro Deiniol, Deiniolen; Mrs Florrie Davies, 3 Bro Elidir, Dinorwig; Mrs Gladys M. Tomos, Sylwyn, Ffordd Capel Coch, Llanberis.

IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLLEN Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★ 28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★ 2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★ Gwres canolog llawn
- ★ Sustem ddiogelu rhag tân
- ★ Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★ Sustem alw nyrs
- ★ Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★ Lle bwyta mawr
- ★ Aros cyfnod hir/byr
- ★ Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★ Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★ Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★ Coginio cartefol
- ★ Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★ Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

ADEILADU DYFODOL I'R DYFFRYN

Ar y 4ydd o Fehefin, cynhaliodd Antur Padarn gyfarfod pwysig yn hanes y Dyffryn. Trefnwyd y cyfarfod rhwng Antur Padarn a chynrychiolwyr gwahanol gyrff i drafod yr Arolwg a wnaed gan Dr Delyth Morris ar ran yr Antur. Yn bresennol roedd swyddogion o Gyngor Arfon, Cyngor Gwynedd, Tai Cymru, Pwyllgor Tywysog Cymru, Comisiwn Cefn Gwlad Cymru, Targed, a chynrychiolwyr o Gyngorau Cymuned y cylch.

Diben y cyfarfod oedd cyflwyno yn ffurfiol i sylw'r swyddogion hyn, ganlyniad yr arolwg a wnaed ar sail holiadur Antur Padarn. Hidlwyd yr atebion i'r holiadur gan Goronwy Huws a'r Dr Delyth Morris ac fe gasglwyd y prif ffeithiau ynghyd mewn dogfen swmpus a chynhwysfawr.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Br Glyn Tomos, Cadeirydd Antur Padarn, a chyflwynodd Dr Delyth Morris grynodedb graenus o'r canlyniadau gan danlinellu yr atebion a gasglwyd. Ymhlith y rhain roedd:

★ YR AMGYLCHEDD

Mae pobl yr ardal yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd yr amgylchedd ac yn awyddus iawn i wella a diogelu harddwch naturiol y Dyffryn i'w wneud yn ddymunol i fyw a gweithio ynddo. Yn yr adroddiad ceir rhestr yn ôl pentrefi o'r hyn yr ydych chi fel trigolion yn awyddus i'w wella. Yn y lle cyntaf ac yn ystod yr wythnosau nesaf, bwriad yr Antur yw trafod manylion eich dymuniadau â'r Cyngorau Cymuned priodol.

★ GWAITH A CHYFLOGAETH

Dengys yr adroddiad mai diweithdra yw prif broblem yr ardal — dyna farn 59% o'r rhai a holwyd. Mae cyflogaeth ymhlith dynion yn is nag arfer, ond ymhlith merched yn uwch nag arfer. Gan nad yw swyddi i ferched fel arfer yn talu'n arbennig o dda, mae hyn yn arwydd pendant fod cyflogau isel yn llawn cymaint o broblem ag yw diweithdra'r cylch. Bwriad yr Antur yw ceisio hybu cynlluniau hunan-gyflogaeth, ac ail-hyfforddi yn lleol. Eisoes mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd, canfuwyd yr angen am gynlluniau ail-hyfforddi penodol i wahanol rannau o'r gymdeithas, e.e. gwragedd tŷ gyda gofal dros deuluoedd neu berthnasau dibynnol.

Gwelir hefyd yr angen am sefydlu gwasanaeth cynghori busnes yn yr ardal hon, er mwyn hybu a diogelu mentrau newydd a'r rhai sydd mewn bod eisoes.

Yn ôl yr adroddiad, ymddengys bod canran uchel o bobl y Dyffryn yn ddiwaith oherwydd anabledd neu affechedd a dylid ystyried darparu ail-hyfforddiant a chynghori gwaith ar eu cyfer. Gobaith Antur Padarn yw hyrwyddo cynlluniau fyddai'n diwallu anghenion arbennig y bobl hyn.

Mae cyfran uchel o bobl ifanc yn dymuno gweithio ac aros yn eu hardal, sy'n gosod her fawr i'r asiantaethau creu gwaith. Dymuniad yr Antur yw creu dolennau cyswllt gydag ysgolion a cholegau lleol, ac â chyflogwyr hefyd, er mwyn sicrhau bod y cyfle gorau posibl gan bobl ifanc yr ardal am unrhyw swyddi sydd ar gael yn lleol.

★ CYFLEUSTERAU CYMDEITHASOL

Mae llawer o bobl yr ardal yn gweld yr angen am theatr/sinema bro. Cred yr Antur y dylid gwneud gwell defnydd o adnoddau presennol yr ardal er mwyn diwallu'r angen hwn.

Mae'r arolwg yn dangos angen am

wasanaeth gofal ar gyfer plant a pherthnasau dibynnol er mwyn rhoi cyfle i'r gofawyr rheini (merched yn bennaf), gael cyfle i ennill cyflog teg. Mae'r Antur yn awyddus i weld sefydlu meithrinfeidd, gofal ar ôl oriau ysgol, a gofal yn ystod gwyliau ysgol; yn ogystal â chanolfannau gofal dyddiol i'r rhai mewn oed a'r anabl. Gobeithir gwneud hyn mewn cydweithrediad ag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Gwynedd, a'r sector annibynnol.

Er mwyn cyflawni hyn i gyd, a hwyluso'r broses o weithredu'r argymhellion sydd yn yr Arolwg, gobaith Antur Padarn yw cyflogi Swyddog Datblygu i'r Dyffryn o dan gynllun Cymorth Trefol y llywodraeth, a chyflwynir cais i'r perwyl hwn yn y dyfodol agos.

★ TAI A CHARTREFI

Tai ar gyfer pobl ieuaic yw'r prif angen ym maes tai, gyda thai i'w rhentu a thai ar gyfer pobl hŷn yn dilyn. Mae'r arolwg yn dangos fod yna le pendant i ymchwilio yn ddyfnach i'r maes hwn er mwyn asesu'r sefyllfa yn llawnach.

★ GLYN RHONWY

O ystyried hanes diweddar safle Glyn Rhonwy, gofynwyd am farn pobl ynglŷn â pha ddatblygiadau yr hoffent eu gweld yno, a pha ddatblygiadau na hoffent eu gweld yno. Datblygiadau twristaidd mawr sydd ar ben y rhestr o ddatblygiadau a ystyrir yn annymunol ar gyfer Glyn Rhonwy, a dymuniad mwyafrif o bobl leol yw gweld gwarchodfa natur yn cael ei datblygu ar y safle.

★ IAITH A DIWYLLIANT

Fel y gellir disgwyl mae dros 75% o bobl yr ardal yn medru'r Gymraeg. O'r rhai nad ydynt yn medru'r Gymraeg, mae'r arolwg yn dangos fod digon o ddiddordeb mewn dysgu'r Gymraeg yn eu plith i gyfiawnhau cynnal dosbarthiadau dysgu Cymraeg neilltuol yn y cylch. Roedd dros hanner y rhai nad oeddynt yn gallu siarad Cymraeg yn awyddus iawn i fynyachu dosbarthiadau o'r fath. Bwriad yr Antur yw gweithredu fel dolen gyswllt rhwng mudiadau'r dysgwyr a'r rheini sydd am ddysgu'r iaith i'w galluogi i ddod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas maent yn byw ynddi.

Nid yw'r Adroddiad wedi ei gyhoeddi'n llawn ar hyn o bryd, ond gobeithiwn gyhoeddi adroddiad llawn ar gyfer y cyhoedd yn ystod y misoedd nesaf.



Derbyniwyd y llun uchod heb inni dderbyn y stori gyflawn sy'n ei egluro. Tybed a fuasai un, neu fwy, o'r plant yn fodlon ysgrifennu pwt o lythyr ar gyfer y rhifyn nesaf o'r Eco er mwyn egluro i'r byd beth yw'r achlysur? Mae'n debyg mai

disgyblion Ysgol Tan-y-Coed sydd yma. A ydym yn iawn?

POBL DINORWIG
TROWCH I
DUDALEN 18



**ERYRI
ORGANIG**

LLANFAGLAN

Ffôn: C'fon 76905

Rhwng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtaitth ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'

**CARTREF
HENOED**



**Caernarfon
(0286) 4652**

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Castell Cidwm



**BETWS GARMON
Ffôn: Waunfawr 243**

Dewch am wledd ym
MWYTY'R PYSGOTWR
ar lan Llyn Cwellyn lle
diddorol, gwahanol, braf

ac am baned o goffi a theisen hufen
mae croeso i deuluoedd a phlant yn
CAFFI'R BWTHYN

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Cerddorol: Llongyfarchiadau i Ffion Orwig Thomas, Buarthau, a fu'n llwyddiannus yn ddiweddar mewn arholiad canu'r piano Gradd 7. Derbyniodd dystysgrif clod.

Diolchiadau: Dymuna Mrs Jennie Roberts, Park Villa, Geraint a Iolo a'r teulu, ddiolch yn ddiffuant iawn i'r llwyddiant, cymdogion a pherthnasau am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth drist o golli Meuryn. Diolch hefyd am y rhoddion hael er cof, ac i'w Weinidog, Y Parchg John Morris, am ei gynhaliadau cyson.

Dymuna Gwilym Williams, Bryn Eifion, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag ato yn ei brofedigaeth sydyn o golli brawd, Edward John Williams, Llys Iorwerth, Y Wern, Y Felinheli (gynt o Bron y Waun, Penisarwaun). Diolch hefyd am y cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau. Derbyniodd pawb o fro Eco'r Wyddfa fy niolch gwresocaf. Diolch yn fawr.

Dathlu pen-blwydd: Dathlodd Mrs Myfi Roberts, 2 Plas Tirion Terrace, ei phen-blwydd yn 80 oed ym mis Mai. Diolch i'r teulu, cymdogion a'r llwyddiant o'i ffrindiau am yr anrhegion, blodau a llwyddiant o gardiau. Diolch yn fawr am wneud ei diwrnod yn hapus.



Llongyfarchiadau i Gwilym Eifion Jones, Gwelafon, Crawia, Llanrug, cyn-ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, ar

lwyddo i gael ei radd B.Sc., gydag anrhydedd mewn Biocemeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.

Merched y Wawr: Taith ddigrl oedd gan y gangen i ddiweddu'r tymor ar nos Fawrth, Mehefin 9fed. Aethpwyd i Lanystumdwy i Amgueddfa Lloyd George. Cafwyd darlith ddiddorol ar fywyd y gŵr enwog gan Emrys Williams, yna golwg o amgylch yr Amgueddfa, y bedd a'r tŷ, sef 'Highgate'. Yna ymlaen i Gricieth ac i Westy'r Marine am swper o bwffe blasus dros ben.

Diolchodd y llywydd, Phyllis Ellis i Margaret Parry a Meryl Green am drefnu noson mor lwyddiannus.

Cytunodd Gwenda Roberts i gymryd y swydd o Is-ysgrifennydd yn ystod y tymor nesaf. Diolchodd Nan Humphreys i Phyllis Ellis a'r swyddogion eraill am eu gwaith yn ystod y tymor. Enillydd y raffl oedd Gwenda Roberts.

Seindorf Llanrug

Swyddogion 1992/93: Yn dilyn y Cyfarfod Blynnyddol mae'r swyddogion canlynol wedi eu hethol ar gyfer 1992-93 — Cadeirydd: James Jones; Ysgrifennydd: Charles Wyn Jones; Trysorydd: Gareth Jones; Cyfarwyddwr Cerdd: Frank Boylin; Arweinydd: John Tame.

Sêl Cist: Bydd Sêl Cist yn cael ei chynnal ym muanth yr Ysgol Gynradd ar 16 Gorffennaf am 6.30 p.m. Bydd y Band yn chwarae detholiad o eitemau yn ystod y sêl. Hefyd bydd lluniaeth ysgafn ar gael, e.e. cŵn poeth, paned o de, diodydd ysgafn, etc. Y gost yw £3 y car. Croeso i bawb.

Spina Bifida: Cymerodd y Seindorf ran yn y fenter 'Snowdon or Bust' ar 20 Mehefin. Pwrpas y dydd oedd codi arian tuag at Spina Bifida a Hydrocephalus, ac hefyd rhoi diwrnod o fwynhad i Gwenno sydd yn dioddef o'r afiechyd. Casglwyd £136 ar y daith, swm y bydd y Band yn ei roi i helpu achos Spina Bifida.

Cystadlaethau: Dymunwn lwyddiant i'r Seindorf yn y ddwy gystadleuaeth y byddant yn cymryd rhan ynddynt yn ystod Gorffennaf ac Awst. Y gyntaf fydd yn Llandudno ar 26 Gorffennaf; a'r ail fydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn

Aberystwyth ar 1 Awst.

Pwyllgor: Cynhelir y pwyllgor nesaf 2 Gorffennaf am 7 o'r gloch yn Ystafell y Band.

Cymorth Cristnogol: Dymuna Cyngor Eglwys Llanrug ddiolch i drigolion ardaloedd Llanrug, Ceunant a Than-y-coed am eu haelioni a'u cefnogaeth i'r casgliad at Gymorth Cristnogol. Diolch i blant ac athrawon Ysgol Brynrefail am eu cyfraniad o £100. Rydym yn ddyledus i'r casglwyr am eu parodrwydd a'u gwasanaeth. Casglwyd cyfanswm o £737.84.

Plaid Cymru: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol cangen Llanrug yn y Sefydliad Coffa, nos Fercher, Mehefin 17. Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer tymor 1992-93 — Cadeirydd: Phyllis Ellis; Is-gadeirydd: Berwyn Parry Jones; Trysorydd: Meirwen Lloyd; Ysgrifennydd: Olwen Llywelyn; Ysgrifennydd Aelodaeth: Vera Williams; Trefnydd y Clwb Cant:

Clifford Williams; Cynrychiolwyr i'r Pwyllgor Rhanbarth: Emyr Tomos, Delyth Tomos, Phyllis Ellis, Berwyn Parry Jones, Olwen Llywelyn.

Bydd y casglwyr yn barod i dderbyn eich tâl aelodaeth am y tymor nesaf cyn bo hir. Os oes newydd ddyfodiaid i'r ardal yn dymuno ymaelodi cysylltwch â Vera Williams, ffôn: Caernarfon 4878 neu Olwen Llywelyn, ffôn: Waunfawr 200.

Fe drefnir rhaglen y flwyddyn erbyn mis Medi ac edrychwn ymlaen at groesawu aelodau hen a newydd i'r cyfarfodydd.

Daw Cwmni Bara Caws i berfformio eu sioe deulu newydd i Ysgol Brynrefail ar nos Fercher, Medi 16.

Enillwyr y Clwb Cant oedd — Mai: 1, Betty Peris Jones, Egryn; 2, Meirwen Lloyd, Afallon. Mehefin: 1, Hefin Jones, Pant Mwyn; 2, Linda Roberts, Curry's.



Enillwyr Tarian Mabolgampau'r Urdd.

Yr Ysgol Gynradd: Dyma beth o weithgareddau'r Ysgol yn ystod mis Mehefin:

4 a 5: Bu disgyblion blwyddyn 5 yn ymweld ag argraffdy Papurau Gogledd Cymru yn Neganwy fel rhan o'u gwaith thema;

8: Llwyddodd yr Ysgol i ennill y Darian ym Mabolgampau'r Urdd ar gaeau Ysgol Syr Huw Owen;

8: Aeth y Dosbarth Derbyn ar ymweliad i goed Glynllifon i fwynhau taith natur, ac yna i Ddinas Dinlle;

16: Cafwyd cefnogaeth dda i Rasys hwyll Cyfeillion yr Ysgol a bu'r noson yn llwyddiant ym mhob ffordd;

17: Bu'r Dosbarth Derbyn ym Mhlas Tirion ar ymweliad;

18: Aeth disgyblion blwyddyn 6 i ymweld â safle'r gael Rufeinig yn Segontiwm, fel rhan o'u gwaith thema;

19: Daeth llwyddiant i ran y tîm pêl-droed pan gipiwyd y Darian yng ngornest Eco'r Wyddfa;

22: Enillodd y tîm pêl-rwyd Darian Cymdeithas Chwaraeon Arfon yng Nghaernarfon, gyda'r tîm pêl-droed yn colli ond o un gôl i'r Gelli yn y derfynol;

23: Daeth Cwmni'r Frân Wen i'r Ysgol i ddifyrru blwyddyn 1 a 2 a chafwyd ymateb da gan y plant i'r gwaith dramatig.

Eisteddfod Yr Urdd: Daeth llwyddiant i ran y canlynol yn Rhuthun — Grŵp Liam (model o Felin Crawia — 1af); Grŵp Donna (model o Wali — 1af); Elin Dafydd Owen (2il am adrodd). Llongyfarchiadau iddynt. Hefyd rhaid canmol y ddau barti dawns werin am lwyddo mor dda i gyrraedd y Genedlaethol.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Gareth



Elin Dafydd a'i medal.

Thomas, Regent House, Llanrug, yn ei brofedigaeth drist o golli brawd yn ddiweddar.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Jeoff Shepherd, Craig y Môr, Llanfairfechan, ar gael eu hethol yn Faer a Maeres Llanfairfechan. Roedd Mrs Shepherd (Einir) yn un o blant Ysgol Sul Tan-y-coed ac yn ferch i Mr a Mrs Wynne, Gelliod (gynt). Maent hwythau wedi cartrefu erbyn hyn yn Llanfairfechan. Dymuniadau gorau iddynt fel teulu gan aelodau Capel Tan-y-coed.

Gwellhad buan i Mr G. Rees Hughes, Oerddwr, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty yn cael llawdriniaeth.



Cafwyd cyfle yn ddiweddar i anrhegu dwy o athrawon Ysgol Sul Ponrhythallt fel arwydd o werthfawrogiad o'u gwaith diflino dros nifer fawr o flynyddoedd. Bu sawl cenhedlaeth o blant o dan ofal Mrs Enid Whiteside Thomas a Mrs Megan Williams ers iddynt gychwyn ar y gwaith. Cyflwynwyd sampleri iddynt, ac yn y llun gwelir y Parch John Morris, Mrs W. A. Jones a Mr Emrys Owen yn eu llongyfarch.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr Clwb 300 mis Mai — £40: Mr B. Keller, 3 Croes-y-waun; £25: Mrs Mair Parry, Deulyn; £10: Mrs Grace Dawson, 5 Bro Waun.

Cronfa Macmillan: Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr i'r canlynol am eu help gyda'r casgliad o dŷ i dŷ yn ddiweddar — Mrs C. A. Jones, Bryn Gwenallt (trefnydd): £27.20; Mrs O. Owen, Tref Eilian a Miss M. W. Jones, Dôl Erddi: £12.86; Mrs Mair Parry, Deulyn, Stad Croes-y-waun: £36.72; Mrs Ann Turner, Tai Isaf: £26.68; Mrs Ellen Jones, Eryri Wen: £31.47; Mrs Pearl Williams, Parc: £18.47; Mrs M. Missen, Kirby: £38.50; Mrs Margaret Jones, Graianfryn: £48.50; Mrs Rosemary Bracegirdle, 23 Bro Waun: £23.87; Snowdonia Park Hotel: £7.94; gan wneud cyfanswm o £272.21. Rwy'n siŵr y byddwch yn falch o glywed bod y cyfanswm yn £2,760 gan Gaernarfon a chylchoedd y wlad.

Dymuna Mrs Catherine A. Jones ddiolch i'r casglyddion am eu parodrwydd i'w helpu gyda'r casgliad a hefyd i bawb am gyfrannu mor hael tuag at yr achos teilwng yma.

Cymorth Cristnogol: Cyfanswm y casgliad am y flwyddyn hon oedd £324.61. Dymuna'r trefnydd ddiolch i'r casglyddion am eu cymorth parod. **Gwyliau:** Dymunwn yn dda i'r plant sy'n mynd am wythnos o wyliau i Langrannog. Gobeithio y bydd y tywydd yn braf i chi.

Cyfeillion Ysgol Waunfawr: Nos Wener, Mai 22, cynhaliodd cyfeillion Ysgol Waunfawr Ras Hwyaidd, er mwyn casglu arian at brynu cyfrifiadur i'r ysgol. Roedd gwerthu mawr wedi bod ar yr hwyaidd a digon o ddwylo wrth law i 'bysgota' yr hwyaidd druan aeth i drwbwl wrth nofio i lawr yr afon! Yr enillwyr oedd — £25: Ffion Williams, 4 Stad Tŷ Hen, Waunfawr (483); £15: Catrin Thomas, Bryn Deulyn, Nantlle (474); £10: Victoria Morris, 10 Bryn Gof, Caeathro (221). Gwnaed elw o £180 a dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

Adref o'r ysbyty: Croeso adref o'r ysbyty i Mr Huw Williams, Stad Croes-y-waun. Gobeithio y byddwch yn dal i wella.

Llongyfarchiadau ar ddathlu pen-blwydd i Mrs Williams, Dwyfor, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 94.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i Osian Gwynedd, Nant, ar lwyddo gyda theilyngdod, yn ei arholiad piano, gradd 7; a chyda anrhydedd yn arholiad saccaphone, gradd 8. Tipyn o gamp. Nos Fercher, Mehefin 25 bu Osian yn cymryd rhan mewn Cyngerdd i'r Goreuon ym Mhrifysgol Bangor.

Dathlu Priodas Arian: Llongyfarchiadau i Gareth a Jeni Jones, Glyn Ceris, ar ddathlu eu Priodas Arian.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau am wellhad buan at Mrs Lilian Jones, Treflys, sydd wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty; ac at Mrs Annie Bennet, Llechwedd; Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen, y ddwy yn yr ysbyty ym Mangor. Yn dilyn damwain mae Aled Taylor, Baladeulyn a Deion Jones, Tan-y-coed, wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod gweddol hir, gobeithiwn eich bod yn gwella.

Hefyd anfonwn pob dymuniad da at Mrs Gwyneth Griffiths, Stad Tref Eilian, sydd yn cael llawdriniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl.

Adref o'r Ysbyty: Bu Mrs Lyons, Ael-y-bryn; Mrs Bethan Thomas, Ty'n Llain; Mrs Anne Addison, Lloches; Mr Raymond Williams, Plas Glyn Afon; Mr Glyn Williams, Tref Eilian; Mr Cyril Williams, Bro Waun a Mr Owen, Y Glennydd, yn yr ysbyty am gyfnod. Croesawn chwi adref gan obeithio eich bod yn cryfhau ac yn gwella.

Gobeithio hefyd bod Mrs Williams (Garreg Fawr gynt) yn gwella ar ôl anffawd a bod Delyth Jones, Cynant Lodge yn dal i wella.

Cydymdeimlad: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Elfed Roberts, Dwyros, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd ym Mhen-y-groes.

Ymwelydd i'r fro? Beth am y mwnci a welodd Heulwen Huws, Argoed, drwy ffenestr ei stydi? Mae Roy Jones hefyd yn ein sicrhau mai dyna a welodd. Tybed o ble y daeth ac i ble yr aeth? Bob tro yr âf heibio Capel Bethel fe daflaf fy ngolygon tua'r to rhag ofn i minnau hefyd ei weld.

Yr Urdd: Cynhaliwyd chwaraeon y cylch yn Ysgol Syr Huw Owen, ar Fehefin 8, a bu adran Waunfawr yn llwyddiannus iawn, gan ddod yn ail yn y cystadlaethau i adrannau pentref. Dyma'r canlyniadau — Genethod, rhedeg dan 10 oed: Ffion Williams (2), Ffion Davies (3); rhedeg dan 12 oed: Heledd Elfryn (1); naid uchel dan 10 oed: Fiona Davies (1); rās gyfnewid dan 10 oed: Sioned, Emma, Ffion a Fiona (2); rās gyfnewid dan 12 oed: Heledd, Sioned, Gwenllian, Lowri (3). Bechgyn, naid uchel dan 10 oed: Steffan Elidir (3); naid uchel dan 12 oed: Meirion Williams (1); naid hir dan 12 oed: Meirion Williams (1).

Da iawn chi blant, a phob lwc i Heledd, Ffion a Meirion pan fyddant yn cystadlu yn Chwaraeon y Sir ym Mangor ddechrau Gorffennaf. Diolch i Anti Nan, Anti Carys, ac Anti Christine am gynorthwyo gyda'r trefnu, ac i'r rhieni am gludo'r plant.

Yr Ysgol Feithrin

Gŵyl Feithrin 1992: I ddathlu wythnos gŵyl feithrin eleni, penderfynodd y Mudiad annog pob cylch meithrin i ddysgu 10 o hwiangerddi ar y thema 'Yn yr Ardd'. Cynhaliwyd bore agored nodedig yn y Ganolfan, fore Mawrth, Mehefin 23, pan ddaeth aelodau o'r cyhoedd ynghyd i wrando ar y plant yn canu. Darparwyd paned a bisgedi gan aelodau'r pwyllgor. Roedd yr arian a gasglwyd yn mynd i gronfa Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi Waunfawr, gyda chyfran fechan ohono yn mynd i gynnal y Mudiad Ysgolion Meithrin yn Arfon.

Trip y Plant: Bydd trip y plant eleni yn ymweld â pharc anifeiliaid Bodorgan, Môn, ddydd Llun, Gorffennaf 13. Bydd y bws yn gadael y Ganolfan am 10 o'r gloch, ac yn dychwelyd o Fodorgan am 2 o'r gloch. Estynnir gwahoddiad i blant y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi, ynghyd â brodyr a chwiorydd ieuengaf a phlant fydd yn dechrau yn y Cylch Meithrin ym mis Medi. Y gôst fydd £4 i bob oedolyn (yn cynnwys y bws a mynediad i'r parc).

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Penblydd Arbennig: Llongyfarchiadau i Mrs Jennie Maxwell, Bro Dawel, a ddathlodd ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed ar Fai 9fed.

Sefydliad y Merched: Ymhlith eu gweithgareddau'n ddiweddar, cyfarfu'r gangen leol ar Fai 18fed yng nghartref y llywyddes Mrs Pat Jones pryd y trafodwyd yr Argymhellion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Sefydliad y Merched a gynhelir yn Birmingham.

Nos Lun, Mehefin 15fed, cafwyd noson dipyn gwahanol i'r arfer pan benderfynwyd trefnu taith gerdded o'r pentref gan ddilyn y llwybr troed a beicio a gwblhawyd yn ddiweddar gan ddilyn glannau Llyn Padarn i Lanberis. Roedd yn noson hafaidd a bu'n gyfle i werthfawrogi y prydferthwch neilltuol sydd ar garreg ein drws. Wedi cyrraedd pen y daith roedd lluniaeth hyfryd wedi ei baratoi gan y llywydd ar y safle picnic islaw Glynrhonwy. I gloi'r noson cyn ymlwybro tuag adref cafwyd cwis byr a'r enillydd oedd Mrs Eirlys Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar ffurf Trip Dirgel a drefnir ar gyfer nos Lun, Gorffennaf 13eg gan Mrs Gwenllian Edwards a Mrs Mai Parry. Mae croeso i unrhyw un o'r pentref ymuno — enwau, os gwelwch yn dda, i Mrs Betty Owen (870785).

Cofion: Anfonwn ein cofion at Mrs Hannah Jane Jones, 7 Trem Eilian, a gyfarfu â damwain yn ei chartref. Gwellhad llwyr a buan i chwi.

Cymdeithas y Chwiorydd: Cyfarfu Cymdeithas Chwiorydd Eglwys M.C. Brynrefail, nos lau, Mehefin 4ydd dan lywyddiaeth Mrs J. A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Mair Davies yn seiliedig ar Salm 96. Un o aelodau'r Gymdeithas oedd y gwestai am y noson, sef Miss A. M. Williams, Llys Arfon, a bu edrych ymlaen mawr am ei chwmni i ddweud hanes ei gwyliau cyfandirol dros gyfnod o bron dri mis. Cafwyd adroddiad byw a lliwgar ganddi am ei theithiau yn Hong Kong, Singapore, Awstralia, Seland Newydd, Honolulu, San Francisco ac Efrog Newydd, cyn dychwelyd i Brydain ar Fai 6ed. Cafodd gwmni hwyliog Miss Alice Williams ar y daith ac roedd yn amlwg i'r ddwy gael profiadau gwerth chweil drwy gydol y daith ac i Miss Williams gael y cyfle o gyfarfod aelodau o'r teulu yn Awstralia. Diolchwyd iddi am ei sgwrs ddiddorol gan y llywydd.

Enwau ac arian i Liz Daniel, 8 Stad Tŷ Hen, neu Shirley Parry, 8 Pant y Waen, erbyn Gorffennaf 6ed.

Mae yna ychydig o leoedd yn dal ar gael yn yr Ysgol Feithrin ar gyfer mis Medi. Os am gadw lle ar gyfer eich plentyn, cysylltwch â Liz Daniel ar Waunfawr 485.

Diolch: Ar ôl peth amser o wasanaethu fel athrawes yn y Cylch Meithrin mae Anti Jina wedi penderfynnu gadael ar ddiwedd tymor yr haf. Dymuna'r pwyllgor ddiolch iddi am ei gwaith yn ystod ei chyfnod fel athrawes, a dymuno pob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

Ym mis Medi y daw'r rhifyn nesaf o'r Eco o'r wasg. Mwynhewch wyliau'r haf a chofiwch ddod a'ch newyddion i mi erbyn Awst 31.

Paratowyd y baned gan Mrs Jennie Hughes a Mrs Verna Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Gorffennaf 2il yng nghwmni Dyfan Roberts.

Llongyfarchiadau: Estynnwn llongyfarchiadau calonog i Miss Heather Wyn Jones, Gors, sydd wedi dilyn gyrfa nyrsio lwyddiannus yn Ysbyty Gwynedd. Wedi cyfnod o bedair blynedd fel gweinyddes ar Ward Tryfan, fe'i dyrchafwyd yn 'sister' yn ddiweddar ar y ward arbennig honno. Pob dymuniad da i'r dyfodol yn ei swydd newydd.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Steve ac Anita Long, Tan yr Onnen, ar enedigaeth eu mab bychan, ddydd lau, Mehefin 18fed, ac ŵyr i Mr a Mrs Ken Jones, Cae Coch.

Helfa Drysor: Cynhaliwyd Helfa Drysor Flynyddol y pentref, nos Sadwrn, Mehefin 20fed. Y trefnydd eleni oedd Mr D. G. Ellis, Gweledfa. Teithiwyd trwy Fwlch Llanberis a Bwlch Nantgwynant i Feddgelert gan ddilyn y ffordd drwy Fetws Garmon, Waunfawr a Chaeathro cyn mwynhau pryd o fwyd yn Nhŷ Bwyta Felin Wen, Pontrug. Yr enillydd oedd Mr Islwyn Jones, 3 Trem Eilian, gyda Mr Maldwyn Jones, Nant y Glyn a Mr Gwyn Mowll, Bryn Llwyd yn gydradd ail. Aeth y drydedd wobwr yn rhannol rhwng Mrs Pat Jones, Cae Coch a Mr Gwyn Hefin Jones, Min-y-nant.

Cymanfa Henaduriaeth Arfon: Cynhelir y Gymanfa eleni yn Nosbarth Padarn, yng Nghapel Coch, Llanberis, nos Sul, Gorffennaf 5ed, am 6 o'r gloch. Yr arweinydd gwadd fydd Mr T. Gwynn Jones, Porthaethwy. Trefnir bws i'r Gymanfa a bydd yn galw ym Mrynrefail oddeutu 5.30 o'r gloch.



Delyth Humphries a Sian Davies, Ysgol Brynrefail (gweler y stori yng nghlofn yr Ysgol ar dudalen 15).

DRAENOG

Be' ddaw ohono ni wedi cau swyddfeydd yr heddlu?

Siopwr o Lanrug yn methu'n lân â chael gafael ar blisman fore Sul i reportio lladrad. Bydd rhaid rhedeg bob cam i Fae Colwyn i ffeindio plisman!

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Chwedlau Siôn ac Eleri



Kelly a Nicky Williams, Haulfryn, Ponrhythallt, mêts John Williams, a wrandawsant ar y chwedlau cyn eu cyhoeddi, ac a fu'n rhydd eu beirniadaeth.

Yn ystod y mis cyhoeddwyd llyfr arall gan John E. Williams, Allt Riwth, Llanrug. Fel mae'n hysbys bellach, cydnabyddir John Williams fel awdur toreithiog sydd wedi cyhoeddi llyfrau yn amrywio o nofelau i gofiannau, o storïau byrion i ysgrifau. Y tro hwn mae wedi mentro i fyd plentyn, er mae'n rhaid prysuro i ychwanegu nad yw hwn yn fyd dieithr iddo.

Cynhwysir yn y llyfr ddeg stori am anturiaethau dau blentyn o'r enw Siôn ac Eleri. Mae'r anturiaethau wedi eu lleoli mewn mannau cyfarwydd ac adnabyddus yng Nghymru. Mae'r hanesion yn cyfeirio at gyfarfyddiad y ddau â chreaduriaid chwedlonol. Ceir yma storïau am Gwennol Tyddewi, Morlo Aberdyfi, Blaidd Moel Siabod, Brain Castell Cydweli, Palod Ynys Seiriol, Merlyn Bach Epynt, Llamhidyddion Llys Helig, Cwningod Ynys Enlli, Gafr Cadair Idris ac Eog Afon Teifi. Mae'r teitlau eu hunain yn ein tywys i fyd chwedlonol megis chwedlau Culhwch ac Olwen. Ond mae yma fwy i'r storïau — fe gyflwynir y nawws chwedlonol ffantasiol â'r byd modern yn gyfrwys ac effeithiol iawn. Yn stori Gwennol Tyddewi, er enghraifft, sydd yn ei hanfod yn ffantasiol, cyfeirir at danciau olew Doc Penfro a maes awyr Breudeth ynghyd ag ardaloedd hanesyddol Tyddewi. Rhydd hyn ddimensiwn addysgol ychwanegol i'r cynnwys gan fod yr awdur yn hysbys iawn â'r mannau ac yn gyfarwydd â'u cysylltiadau hanesyddol, chwedlonol, cymdeithasol a daearyddol.

Mae John Williams yn sgwrsiwr heb ei fath a braint yw cael bod yn ei gwmni yn gwrando arno yn adrodd hanesion mewn iaith rymus a naturiol. Medda ddawn brin y cyfarwydd — a gwyn fo'i fyd. Ond mae hefyd yn un o'r bodau prin hynny sy'n gallu trosglwyddo'r 'bwrlwm dweud' ar bapur. Adlewyrchir hyn yn ei ddeialogau llyfr a'i ddisgrifiadau bywiog, a rhagoriaeth yn wir yw'r ffaith fod y creaduriaid yn siarad yn y storïau hyn.

Mae'n lyfr y gall plentyn mor ifanc â saith oed ei darllen a'i fwynhau — ond mae'n un o'r llyfrau hynny y gall athro neu athrawes wneud yn fawr ohono ar brynawn dydd Gwener, neu riant ar erchwyn y gwely cyn galw ar Huwcyn Cwsg i gymryd drosodd.

Mae wedi ei gyflwyno'n gaboledig fel arfer gan Wasg Carreg Gwalch ac yn gwerthu am y pris o £3.25.

A.J.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Priodas: Ar Fehefin 13eg priodwyd Gillian Wyn, merch Mrs Bet Williams a'r diweddar Gynghorydd Trevor Wyn Williams, Troslyn, 8 Coed-y-glyn, Llanberis, â Barry, mab Llion ac Elizabeth Price, Vulcan, Deiniolen. Y morynion oedd Katie Wyn Williams a Carol Wyn Price, a'r gwas priodas oedd Dafydd Evans. Cafwyd gwledd y briodas yng Ngwesty Dolbadarn ac fe dreuliodd y mis mēl yn teithio yn Swydd Efrog. Maent wedi cartrefu yn 4 Tai Gerddi, Lôn Tai Castell, Deiniolen.

Diolchiadau: Dymuna Barry a Gillian, 4 Tai Gerddi, Deiniolen, ddiolch i'w teulu ac i bawb am y llw anrhegion a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Dymuna Mr Bob Williams, 5 Faenol Cottages, Llanberis, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra roedd yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna Geraint ac Anwen Jones, 190 Ffordd Penrhos, Bangor, ddiolch yn fawr am yr holl anrhegion, arian a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Meddyg ar Daith: Pob lwc i Lisa Rudkin sydd newydd orffen ei thrydedd flwyddyn o'i chwrs meddygaeth yn y Brifysgol yn Lerpwl. Mae hi ar fin hedfan i Rio, yn Brazil, ar yr 8fed o Orffennaf. Yno bydd yn cymryd rhan mewn etholaeth meddygol a bydd yn darganfod y ffordd mae meddygaeth yn cael ei ymarfer o fewn gwlad arall â diwylliant gwahanol. Bydd yn ymweld â dioddefwyr y gwahanglwyf yn El Salvador ac mae'n gobeithio aros yno am gyfnod o ddau fis. Ar y 17eg o Orffennaf bydd Lisa'n dathlu ei phen-blwydd yn 21ain oed ond nid yw'n gwybod yn lle nac ym mha ffordd y bydd y dathlu!

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn 1:6:92: 1, Mrs J. Fraser, 6 Maes Padarn (186); 2, Mrs U. Roberts, 15 Maes Padarn (151); 3, John Pritchard, 3 Bryn Teg (92); 4, Jane Roberts, Rallt Isaf (78); 5, R. Williams, Tan y Fron (184).

Llongyfarchiadau i Melanie Barnes (nee Sellars) ar ei dyrchafiad yn Is-rhingyll (Corporal) a dymunwn lwyddiant iddi hi a'i gŵr yn Yr Almaen.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Undeb y Mamau Eglwys Sant Padarn a Sant Peris yn festri Sant Padarn ddydd Mawrth, 2 Mehefin. Y siaradwraig wâdd oedd Mrs Nia Higginbottom o Fae Penrhyn. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi ar ei gwaith fel Arweinydd Tim Gwaith Cymunedol Esgobaeth Bangor. Diolchwyd i Mrs Higginbottom ar ran y gangen gan Mrs Betty Humphreys a Mrs Katie Williams. Diolchwyd hefyd i'r gwestwraigedd, sef Mrs Audrey Evans, Mrs Muriel Morris a Mrs Kathleen Williams. Croesawyd yn gynnes iawn Mrs Betty Hughes a Mrs Betty Williams wedi cyfnod o waeledd. Dymunwyd adferiad llwyr a buan i Mr Robert Williams, Faenol Cottages sydd wedi dychwelyd adref yn ddiweddar o Ysbyty Gwynedd. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Dilys Phillips.

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St.

Padarn: Cynhaliwyd y cyfarfod misol o'r Gymdeithas yn festri'r Eglwys, nos Iau, Mai 14. Dechreuwyd y cyfarfod fel arfer trwy weddi dan arweiniad Mrs Nancy Jones. Croesawyd y gŵr gwadd, Mr John H. Hughes, yn gynnes iawn gan y Llywydd, Mrs Ann Parry Jones. Cafwyd noson ddiffr dros ben gyda Mr Hughes yn siarad yn huawdl iawn ar y pwnc 'Emosiynau'. Rhoddwyd y te a'r raffl y mis yma gan Mrs Margaret Griffiths a Mrs Gracie Roberts, gyda Mrs Kathleen Williams yn lwcus. Diolchwyd iddynt hwy ac i Mr Hughes gan Mrs Audrey Evans. Daeth nifer dda o'r aelodau a'r siwmpersi wedi eu gweu at y 'Jhuggi Jumper Appeal' ac erfynnir ar i'r gweddill ddod a'u cynnyrch cyn gynted â bo modd. Diolch yn fawr am bob ymdrech.

*Yn ystod misoedd y gaeaf bu aelodau'r Gymdeithas yn brysur yn gwau, a gyda'u teuluoedd a ffrindiau — ymhell ac agos — gwnaed 168 o siwmpersi at y 'Jhuggi Jumper Appeal'. Erbyn hyn mae'r cynnyrch lliwgar wedi cynhyr yn eu taith hir i un o wledydd y Trydydd Byd. Dymuna swyddogion y Gymdeithas ddatgan eu diolchgarwch diffuant i bawb yn ddiwahân a fu yn eu cynorthwyo yn y fenter yma, ac yn enwedig i Mrs Louis Jones, Caernarfon, am fod yn barod i ymgymryd â'r gwaith o fynd a'r dillad i ganolfan yr apêl yn ne Lloegr. Diolch o galon i bawb.

Ysgol Dolbadarn: Treuliodd plant dosbarth Mr ap Elwyn wythnos yng Nghanolfan Rhyd-ddu ddechrau mis Mehefin. Buont yn gweithio'n brysur ac er gwaethaf y glaw roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw.

Bu dosbarth Mrs Humphreys yn gwneud gwaith maes ar safle olion yr hen bentref yn Din Lligwy ac yn ymweld ag Oriel Môn fel rhan o'u gwaith ar thema'r Celtaid.

Llwyddodd tîm pêl-droed yr Ysgol i gael y trydydd safle yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Eco.

Bu rhai o'r plant yn sefyll prawf beicio yn yr ysgol dan arolygiaeth yr heddlu a chael tystysgrifau am lwyddo.

Dymunwn y gorau i Mrs Gwyneth Owen sydd wedi cwblhau ei gwasanaeth yn yr Ysgol fel 'Anti amser cinio'.



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

Os bydd y tywydd yn ffafriol bwriedir cynnal mabolgampau'r Ysgol ar gae'r Ddôl ddydd Mawrth, Gorffennaf 7, tua 12.30 p.m. Estynnir gwahoddiad i bawb i ddod i gefnogi'r plant.

Diolch: Dymuna Megan ddiolch i brifathrawes, athrawon, rhieni a phlant Ysgol Dolbadarn, ynghyd â'i chydweithwyr yng nghegin yr Ysgol ar hyd y blynyddoedd, a hefyd i berthnasau a ffrindiau, am lu o gardiau ac anrhegion a gafodd ar ei hymddeoliad.

Cydymdeimlo: Estynnir cydymdeimlad dwysaf i Martin a Carol Torr, Marteg, a'r holl deulu yn eu profedigaeth o golli eu mab, Justin, yn 19 mlwydd oed.

ER COF am Annie Blodwen, gwraig, mam a nain arbennig iawn, a fu farw Gorffennaf 15, 1989.

Mis Gorffennaf — a'i atgofion

Dorodd tant ein telyn ni,

Un â'i gofal dros ei thylwyth

Cofiw'n byth ei chariad hi.

Wil, Heddwyn, Lynnwen, Idwal, Llinos Angharad, Carwyn John.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

**GERDDI
GLASCOED**

(Ger Capel Glascoed)

PENISARWAUN

I'ch gardd
fod ar ei orau
galwch heibio
neu ffoniwch

870453

**Cymdeithas Hanes
Bro Eco'r Wyddfa
GOLWG AR
GWM BRWYNNOG**

Yng nghwmni

John David Williams
ymgynull ger Capel Hebron,
Llanberis am 7 o'r gloch,
Nos Fercher,
Gorffennaf 15fed
Gobeithir trefnu lluniaeth

RHAGHYSBYSIAD:
Nos Fercher, Awst 12fed
GOLWG AR Y CLEGYR

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Llongyfarchiadau i Barry, 10 Dôl Afon a Sharon Jones, 5 Bro Helen, Caernarfon, ar eu dyweddïad.

Bedydd: Ddydd Sul, Mai 31, yn Eglwys Dewi Sant a'r Santes Helen, Caernarfon, gyda'r Tad Macnamara yn gwasanaethu, bedyddiwyd Dewi Wyn, mab bach Marie ac Alan, Mona.

Adref o'r Ysbyty: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mari, 4 Dôl Afon ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion at Mr Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd, sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Croeso Adref: Croesawn William ac Antonette Rowlands yn ôl i'r Cwm am ychydig wythnosau. Ymfudodd William gyda'i fam a'i dad — Willie a Teresa Rowlands, a'i chwaer Vera — i Adelaide, Awstralia 35 mlynedd yn ôl. Dyma'r ymweliad cyntaf i William ers iddo ymfudo. Gobeithio i'r ddau fwynhau eu gwyliau.

Llongyfarchiadau i Miriam Llywelyn, 'Rallt Deg' ar ennill y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Môn.

Clwb Pobl y Cwm: Ar Mai 14eg, trwy gymorth sleidiau, aeth Mrs K. Watkins â ni ar daith hyfryd i'r Isalmaen, lle tywysodd ni o amgylch gerddi a pharciau, ar adeg pan oedd blodau a choed ar eu gorau yn y gwanwyn. Nid oes eiriau i ddisgrifio'r harddwch bendigedig dim ond ei werthfawrogi, a diolch am yr ailgreu o flwyddyn i flwyddyn.

Diolchodd Mr Llew Hughes i Mrs Watkins am y profiad rhyfeddol, a'r cwmni'n eilio hynny. Gofalwyr y baned a'r raffl oedd Mrs E. M. Jones a Mrs M. Williams, ac enillydd y raffl oedd Mr Llew Hughes.

Yng nghyfarfod Mai 28ain cawsom sgwrs fach ddifyr ar hawliau ac arferion gan Mr Llew Hughes, yn ogystal a chyfraniad gan Mrs E. M. Jones, a hyfrydwch fu cael gwrandao ar lais bendigedig Rebecca Evans ar dâp. Cafwyd cyfle i drefnu ychydig ar ein gwibdaith flynyddol hefyd. Y gwestwragedd oedd Mrs K. Watkins a Mrs G. Chick.

Ysgol Gymunedol: 'Cyfarchion o'r Cwm' — bu'r prysurdeb mwyaf yn ystod y mis yma yn y Pwll Nofio yng Nghaernarfon.

Cawsom fynd i'r Gala Nofio a chael hwyl arbennig o dda yno. Dod yn chweched allan o bedair ar ddeg o ysgolion — a rhai yn fwy o lawer na ni. Da iawn blantos am ymdrechu mor lew (ac am guro Ysgol Tan-y-Coed — ond peidiwch a dweud hynny wrthyn nhw — rhag brifo eu teimladau!)

Bu sawl ymwelydd yma yn ystod y mis a braf oedd gweld pob un — yn enwedig yr un a adawodd anrheg. Diolch 'rhen ffrind.

Enillwyr bathodynau nofio — 10m: Christopher Ronchy, Luke Steele, Sarah Roberts, Jane Ford; 20m: Anthony Foulkes; 50m: Huw Davies, Andrew Jones, Sarah Lynne Jones, Shelley Price, Lehanne Thornton; 100m: Daniel Owen, Shelly Price, Lehanne Thornton, Matthew Barnicott, S. L. Jones; 200m: Robert Davidson, Kevin Williams, Sarah Wager, Daniel Owen, Matthew Barnicott; 400m: Kevin Williams, Robert Davidson; 800m:

Angharad Swift; 1000m: Angharad Swift.

Bu'r Babanod yn y Fferm Fêl yn Llanberis. Pawb wedi mwynhau a neb wedi cael pigiad! Diolch i'r rhieni am eu help.

Croeso cynnes i Kim, David, Gary ag Ann i'r Ysgol. Teulu a'u gwreiddiau yn 'Dre' — ond o Frynmawr y daethant yma. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yma.

Mae tri o'r plant hynaf wedi bod ar ymweliad ag Ysgol Brynrefail — ac yn edrych ymlaen yn arw at fis Medi pan fyddant yno yn llawn amser! Mae'r ddau ddosbarth hynaf wedi bod yno hefyd yn cael hyfforddiant chwaraeon a phawb wedi mwynhau ei hunain yn fawr.

Mae pawb yn yr Ysgol a'r pentref yn edrych ymlaen am y BARBICIW! ar Orffennaf y 3ydd. Cofiwch brynu tocyn. Y fi a Mr Dafydd Price sy'n coginio!!

Gyda lwc, cyn diwedd y tymor, byddwn wedi cael trip, disgo, helfa drysor, a llawer o bethau eraill — ond mwy amdanynt y tro nesaf.

Am y tro — yn iach a di-bechod y boch.



Richard Williams yn cyflwyno llun o Bant Penllyn i Francis Jones — tysteb gan ei gyn-gydwodraethwyr a'i gyfeillion o'r ardal.

CLWB ERYRI

Cynhaliwyd gwibdaith flynyddol y Clwb ar ddydd Sadwrn, 20fed Mehefin, pryd yr ymwelwyd â Phen Bryn, Abergwynnregyn; Biwmares, Oriel Môn, Bryn Celli Ddu, gan orffen drwy loddesta yng Ngharreg Brân. Mwynhawyd y daith hynod addysgiadol hon gan bawb ac mae'n diolch i'r Dr Eurwyn Lloyd Evans am ei threfnu.

Mynegwyd dymuniadau am adferiad iechyd buan i'n Llywydd, sef Mr Selyf N. Hughes, a diolchwyd iddo am ei arweiniad drwy'r flwyddyn. Y Llywydd am y tymor nesaf fydd y Parch Gwynfor Williams. Etholwyd Mr Iolo Huws Roberts yn ddarpar ysgrifennydd i'r Clwb yn dilyn rhybudd o ymddiswyddiad gan yr ysgrifennydd presennol oherwydd amgylchiadau gwaith.

Atgoffir yr aelodau y cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor nesaf yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis, ar nos Wener, 2il Hydref 1992.



Cyfeillion y Cyn-gynghorydd Francis Jones ar noson cyflwyno tysteb iddo'n Ysgol Cwm-y-Glo.

DAI, DAU A DWY gan Deio

Oes — mae dwy ochr i bob stori onidoes! Yn aml iawn, ceir dwy farn am bynciau llosg y dydd hefyd. Ystyriwch benderfyniad megis un Pwyllgor Addysg Gwynedd i ehangu'r ddarpariaeth feithrin o fewn y sir. Ar ôl blynyddoedd o ddadlau a gwrth ddadlau'n wir, llwyddwyd i neilltuo arian i sefydlu neu barhau 16 o unedau meithrin o dan nawdd yr Awdurdod mewn gwahanol ysgolion. Dechrau'r gwaith o greu darpariaeth ledled y sir yw hyn ond, ac fel pob 'ond' arall mae hwn hefyd yn un hynod bwysig, mae'r dŵr yn dechrau cynhyrfu eto.

Y bwriad gwreiddiol oedd rhoi cymorth i asiantaethau megis MYM (Mudiad Ysgolion Meithrin) sy'n fudiad o wirfoddolwyr i raddau pur helaeth gyda rhieni a charedigion y disgyblion yn talu am, ac yn codi arian trwy gynnal gweithgareddau cymdeithasol, i redeg yr ysgolion. Bellach, dechreu'r gweithredu ar y trefniad sirol newydd ac mae ambell i griw yma ac acw'n sylweddoli fod eu cyfraniad hwy erbyn hyn yn mynd i fod yn ddiangenraid. Clec arall i ysbryd cymdogol pentrefi ynteu cam ymlaen i wasanaeth soffistigedig proffesiynol — pa un tybed?

Dyna'r barnau a'r rhagfarnau am Dafydd El wedyn neu hwyrach mai fel Arglwydd Dai y dylid cyfeirio ato bellach. Mae'n democratiaeth Brydeinig, yn gam neu'n gymwys, yn credu'n gryf yn egwyddor yr ail gyfle a'r ail drafod. Meddyliwch am ein hoffter fel Cymry o benodi is-bwyllgorau ac is-baneli er mwyn trafod rhyw destun neilltuo a'r is-bwyllgor hwnnw wedyn yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor mawr er mwyn rhoi cyfle i ailrafod. O ddilyn arferiad o'r fath, gwelir yr angen am ail senedd-dy. O dderbyn fod angen sefydliad o'r fath, yna gellir dilyn yn rhesymol y ddadl dros i bob plaid wleidyddol gael cynrychiolaeth yno. Ond wedyn, erys rhyw deimlad anghyfforddus ym meddwl rhywun am y modd y penodir aelodau i'r ail dy. Cyfyd y cwestiwn o atebolrwydd a phryderaf fwyfwy y dyddiau hyn ein bod yn byw mewn cymdeithas sy'n mynd yn or-ddibynol ar bobl nad ydynt yn atebol i unrhyw un.

'Dai' arall fu'n y newyddion tros yr wythnosau diwethaf yw'r Dywysoges a etifeddodd deitl o fod yn Dywysoges Cymru. Beth bynnag yw'ch barn am y drefn frenhinol, siawns nad oes gan y wraig hon rywfaint o hawl i gael llonydd fel y

gweddill ohonom. Pam na chaiff Dai a'i gŵr, y ddau ohonynt, fyw eu bywyd priodasol fel ag y dymunant? O sôn am atebolrwydd ynghynt, mae'n bosibl cario'r syniad yn rhy bell onid oes? Tybed a yw bywyd personol y teulu brenhinol bellach i fod yn atebol i ragfarnau'r cyhoedd? 'Sgersli bilif' chwedl Ifas ers talwm!

Stori leol y mis mae'n siwr yw honno am y ffatri honedig yn Neiniolen. Gwarchae mawr o gwmpas y lle am ddyddiau a phob math o straeon yn mynd o gwmpas fod tunelli o 'Semtex', gynnu, ac ati, wedi'u canfod wedi'u claddu yn yr ardd, neu fod dau gorff treuliedig o dan y ddaear. Nifer yn honni gwybod y stori a neb yn berffaith siwr chwaith. Oes, mae dwy ochr i bob stori ac yn aml iawn, ceir dwy stori am yr un mater hefyd. Ie, hwyrach ein bod yn symud o fod yn gymdeithas o bobl unigryw i fod yn gasgliad o bersonau deuol eu natur. Ac mae hynny'n dychryn rhywun!

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Llongyfarchiadau i Gwenno Hughes, Tŷ Mawr, a lolo Morris Roberts, Gerallt, ar ennill gradd B.A. gydag anrhydedd o Brifysgol Cymru, Bangor; ac Ann Wyn Hughes, Gwendraeth, ar ennill gradd B.Ed gydag anrhydedd o Goleg y Normal. Da iawn chi.

Cyngor Cymuned: Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yn y Ganolfan, Waunfawr, nos Fercher, 27 Mai. Ar gais yr aelodau lleol penderfynwyd codi golau stryd ychwanegol o flaen Caeathro Bach am gost o £230. Bydd Cyngor Bwrdeistref Arfon yn codi arwyddion cyn bo hir yn ceisio atal perchenogion cŵn rhag gadael i'w cŵn faeddu'r gwaith, y palmant a llecynnau agored lle mae pobl eraill yn mynd. Nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad i'r cais cynllunio amlinellol ar gyfer byngalo rhwng Llwyn Celyn a chefn tai Hen Gapel. Yn ystod y cyfarfod yng Nghaeathro ar 29 Mehefin bu cynrychiolydd o Dŵr Cymru yn annerch y Cyngor ar eu cynllun i newid y sustem o dynnu dŵr o Lyn Cwellyn er mwyn rheoli'r pysgodfeydd yn well.

Pwyllgor Cae Chwarae: Yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mehefin penderfynwyd mewn egwyddor trafod y posibilrwydd o gynnig rheolaeth y cae chwarae i Gyngor Bwrdeistref Arfon. Er mwyn codi arian bydd cystadlaethau amrywiol yn erbyn pentref Waunfawr ar 21 a 23 Gorffennaf yn Nhafarn Bryngwna ac ar y cae chwarae gyda barbeciwr hefyd. Cynhelir taith nodedig i fynyr Wyddfa o Rhyd-ddu ar 16 Awst hefyd.

Gwasanaethau'r Capel: Bydd y canlynol yn pregethu yng Nghapel y Pentref yn ystod mis Gorffennaf — 5: Parch. Gwynfor Williams (10); 12: Parch. W. R. Williams, Gweinidog (2); 19: Parch. Gwilym Hughes (2); 26: Parch. W. R. Williams, Gweinidog (2).

Fel arfer bydd croeso mawr i bawb, ifanc a hen, aelod neu ddim.

AR WERTH

BYNGALO

YN ARDAL PENISARWAUN

MEWN GERDDI HELAETH
YNGHYD Â THRI CHAE

ADEILADAU ALLANOL YN
CYNNWYS: SIED FAWR,
STABLAU, TAIR GAREJ,
STAFELL 'MOLCHI, Tŷ
GWYDR a SIED FECHAN

YSTAFELLOEDD TU MEWN
YN CYNNWYS: CEGIN,
IWTLITI, STAFELL FYW,
LOLFA, STAFELL FWYTA,
DWY STAFELL 'MOLCHI,
TAIR STAFELL WELY a
STYDI neu STAFELL WELY
YCHWANEGOL

GWRES CANOLOG

Ffôn: 871274

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Urdd Bentref: Cynhaliwyd Mabolgampau'r Cylch ar gaeau Syr Huw Owen, Caernarfon, yn ddiweddar a bu cynrychiolaeth o'r Adran yno yn cystadlu. Fe fwynhaodd pawb eu hunain yn ardderchog a diolchir i'r cefnogwyr a'r cludwyr am eu hanogaeth.

Eisteddfod Bentref: Bydd cystadlu brwd nos Wener, Mehefin 26ain yn Neuadd yr Eglwys o 6 o'r gloch ymlaen. Y beirniaid fydd Einir Wyn Williams, Rhiwlas, a lolo Huws Roberts, Waunfawr. Y gyfeilyddes fydd Glenys Griffiths, Bethel, a'r arweinyddion fydd Arwel Jones a Judith Harding. Pob hwyl i bawb ar y cystadlu.

Cymdeithas y Beiblau: Bydd aelodau Ysgol Sul Bosra ac aelodau Ysgol Sul Santes Helen yn cyflwyno stori'r 'Bioden a Saceus' yng ngwasanaeth Cymdeithas y Beiblau yng Nghapel Cefn-y-waun, Deiniolen, bnawn Sul, Mehefin 27ain am 2 p.m. Y mae'r plant a'r athrawon yn mwynhau dod at ei gilydd fel hyn a chydaddoli yn achlysurol.

Yn ddeunaw oed: Dymunir pob bendith a hapusrwydd i Glen Lamb, Bryn Eglwys, ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Trip yr Ysgol Sul i Gaer: Gobeithio y bydd yr haul yn tywynnu'n braf ddydd Sadwrn, Gorffennaf 4ydd, pan fydd nifer fawr o'r pentref yn mynd i siopa ac i'r sw yng Nghaer. Bydd y bws yn cychwyn yn brydlon am 8.30a.m.

Llongyfarchiadau calonnog i Olwen Jones, Pant Hywel, ar ei chanlyniadau rhagorol ym Mhrifysgol Caerdydd. Derbyniodd radd B.A. gydag anrhydedd. Pob dymuniad da i'r dyfodol Olwen.

Dymunir pob bendith a hapusrwydd i Dafydd Leslie Roberts, Pendinas Mawr, fel prifathro newydd Ysgol Deganwy.

Carnifal y Pentref: Cynhelir y Carnifal bnawn Sadwrn, Gorffennaf ?? yng nghae Mr Dafydd Morris am 2p.m. gan gychwyn o'r Cae Chwarae. Hunan ddewisid fydd testun yr holl adrannau. Bydd stondinau, raffi, teisennau, hufen iâ a chŵn poeth ar werth.

Bydd noson i blant yr Ysgol Gynradd nos Wener, Gorffennaf 10fed, yn ngofal Ysgol Tan-y-Coed. Ni chynhelir Cymanfa gan y Carnifal eleni oherwydd fod Cymanfa gan yr Ysgol Feithrin ar 5ed o Orffennaf.

Pwyllgor Neuadd: Dim ond edmygedd a balchder a deimlai holl aelodau'r pwyllgor wedi ymweliad â'r Ysgol Gymunedol newydd ddechrau'r mis hwn gyda Mr Geraint Elis a'r pensaer Mr Gray Williams. Bu'n ymdrech hir i gasglu'r arian ond bu'n werth yr ymlafnio a'r darparu'r holl weithgareddau. Buan iawn y cewch chwithau bentrefwyr a chefnogwyr ffyddlon Clwb Cant a'r amrywiol weithgareddau droedio i mewn i'w chynteddau moethus.

Enillwyr Clwb Cant mis Mai oedd — 1, T. W. Griffith, 16 Bryn Tirion; 2, Eiriona Williams, Glyn Euron; 3, Elizabeth Jones, 17 Bryn Tirion. Tynnir Clwb Cant mis Mehefin mewn pwyllgor ar nos Lun, Mehefin 30ain. **Casgliad Ymchwil y Canser:** Casglwyd y swm o £78.44 tuag at y gronfa yma gan Mrs Nansi Jones

a Mrs Beti Hughes a diolchir iddynt am eu gwaith diflino.

Arholiadau: Ydy, mae'r tywydd poeth wedi mynd i rywle, a dyna'r hanes bob blwyddyn — arholiadau TGAU, Lefel-A, colegau — a thywydd crasboeth! Gobeithio eich bod wedi cael hwyl arnynt a phob dymuniad da i bob un ohonoch pan ddaw y canlyniadau hir-ddisgwyliedig. Pob hwyl i chwithau blant yr Ysgol Uwchradd ar eich arholiadau chwithau — daw'r gwyliau toc!

Gwellhad: Dymunir adferiad iechyd buan i bawb sy'n sâl yn y pentref ac anfonir cofion annwyl atoch i gyd.

Ysgol Tan y Coed: Cafodd tîm nofio yr ysgol gefnogaeth ardderchog gan eu cyd-ddisgyblion a nifer o rieni yn y Gala Nofio yn ddiweddar. Yn cynrychioli'r ysgol roedd Sophie, Vanessa, Iwan, Elgan, Siôn, Daniel a Sam. Yn anffodus nid oedd yn bosib i Justin a Victoria fod yn bresennol ar y diwrnod. Er na enillodd yr ysgol y Tlws, fe gawsom y profiad o gymryd rhan a'r pleser o gystadlu'n iach yn erbyn ysgolion eraill.

I gloi gwersi nofio'r flwyddyn cafodd y plant gyfle i nofio am eu bathosdynnau. Mae nifer fawr ohonynt wedi llwyddo i nofio o 10 medr hyd at filltir. Mae gormod ohonynt i'w henwi yma, felly — ardderchog a llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

Fel rhan o'n polisi yn y dalgylch i feithrin cysylltiad agos ag Ysgol Brynrefail cafodd safon 3 a 4 gyfle i gymryd rhan yn eu cynllun chwaraeon. Cyfle yw hwn i'r plant gael profi gwahanol chwaraeon dan ofal a hyfforddiant arbenigwyr. Diolch i Mr Grisedale a'i staff am y cyfle i gymryd rhan a'u croeso cynnes.

Yn ddiweddar treuliodd y plant hynaf ddiwrnod yn Ysgol Brynrefail cyn trosglwyddo yno ym mis Medi. Cyfle ardderchog yw hyn i leihau unrhyw bryderon, ac yn ôl yr ymateb a gafwyd, fe gafodd pob un ohonynt brofiadau cyfoethog iawn yno.

Fel rhan o'u cywaith am y Celtiaid, aeth safon 1 a 2 ar ymweliad addysgiadol gyda Mrs Shirley Roberts â Tre'r Ceiri. Gyda'r plant aeth Mr Robert Wyn Roberts, sy'n athro ymgynghorol ac yn dipyn o arbenigwr ar y pwnc. Cafodd pawb ddiwrnod ardderchog, a picnic — sydd o bosib yn bwysicach i'r plant na'r ymweliad ei hun! I gloi'r gweithgareddau daeth Mr Roberts i'r ysgol ymhen ychydig ddyddiau wedyn i ddilyn y gwaith i'w fynyr.

Ymwelydd arall â'r ysgol yn ddiweddar oedd Nyrs Betty Parry. Yn ei ffordd arbennig ei hun siaradodd gyda'r dosbarth hynaf am ddatblygiad corfforol a glendid personol. Diolch yn fawr i Nyrs Parry am wneud maes mor ddwys ychydig yn haws i'w gyflwyno.

Yn dilyn ymweliad gan staff yr ysgol, y llywodraethwyr a'r pwyllgor neuadd â'r ysgol newydd yn ddiweddar, fe ddywedwyd wrthym fod posibilrwydd y byddwn yn dechrau'r tymor newydd yn yr ysgol newydd. Newyddion ardderchog i bawb a mawr obeithiwn y bydd hynny yn bosib. O ganlyniad, mae'n rhaid cymryd y byddwn yn gorffen yn Nhan-y-Coed ar ddiwedd y tymor

yma, ac eisoes fe drefnwyd gweithgareddau i ddathlu'r achlysur gan gynnwys te parti gan y 'Cyfeillion'.

I gloi ar nodyn personol — fe hoffwn i (R. Humphreys) longyfarch Mr Richard Williams, Cwm-y-glo, ar ei benodiad fel prifathro yn Ysgol Bryngwran, Ynys Môn. Cefais y fraint o gydweithio yn agos iawn â Mr Williams, ei staff, a'i ddisgyblion am dair blynedd, ac roedd yn barod i estyn cymorth a rhannu ei brofiad ar bob achlysur. Gobeithio y byddi yn hapus iawn ym Bryngwran, Dic, ac fe fydd 'chwith mawr ar dy ôl.

GAIR O RÔMANIA gan ANGHARAD WILLIAMS

Annwyl Ffrindiau,

Yr wyf wedi bod yn gweithio mewn cartref plant yma yn Romania ers bron i ddeufis. Bellach mae'r gwaith ac awyrgylch y cartref yn fwy cyfarwydd, y berthynas gyda'r gweithwyr wedi ei sefydlu a'r plant yn gymeriadau unigryw yn hytrach na bod yn lu o wynebau mewn cotiau.

Yr ydym yn dim o bump o ferched o Brydain yn gweithio mewn gwahannol rannau o'r cartref, ac yn gweithio boreau deirgwaith yr wythnos a'r pnawniau ddwywaith yr wythnos.

Mae diwrnod y babanod, lle rwyf fi yn gweithio, yn cychwyn am chwech o'r gloch y bore pan font yn cael eu pryd cyntaf o lefrith mewn potel; am saith o'r gloch maent yn cael eu gwisgo a chael clwt glân.

Wedi hyn mae'r babanod hynaf yn cael eu rhoi yn yr ystafell chwarae tan tua deg o'r gloch. Mae'n brofiad rhyfedd bod mewn ystafell fechan, boeth gydag un ar hugain o fabanod sydd rhwng naw mis a blwydd oed. Yn aml byddaf yn yr ystafell yma fy hunan efo'r plant gan nad yw'r gofawr yn gweld pwysigrwydd treulio llawer o amser yn chwarae efo'r plant. Yn ystod yr amser yma fe fyddaf yn gweld cynnydd yn natblygiad llawer o'r plant sydd heb gael anogaeth a chymorth i ddatblygu o'r blaen. Mae rhai o'r plant yn mynnu sylw, a'r rhai hynny sydd wedi datblygu orau — mae llawer o'r lleill yn eu byd bach eu hunain ac mae'n dasg anodd eu hannog i ymateb i sylw.

Mae'r plant yn cael eu rhoi yn ôl yn eu cotiau tua deg o'r gloch ac nid ydynt yn cael eu codi o'r cotiau wedyn yn ystod y dydd.

Fe fyddaf fi yn treulio fy amser wedi hyn yn rhoi sylw unigol i rai o'r babanod sydd yn araf eu datblygiad.

Mae'r gwaith yn ystod y mis wedi bod yn anodd a chaled ar adegau ond ar yr un pryd yn sialens ac mae boddhad mawr mewn gweithio gyda'r plant.

Gan fod diwylliant y wlad mor wahanol i'n diwylliant ni gartref a'u hagweddau tuag at blant anghenus mor wahanol i'n hagweddau ni, mae'n anodd dygymod â sefyllfa druenus y plant.

Mae Rômania yn wlad diddorol ac yr ydym wedi cael cyfle i deithio rhywfaint ar y penwythnosau, mae hi yn wlad hardd iawn ac rydym hefyd wedi cyfarfod â llawer o bobl ddiddorol a charedig tu hwnt.

Cofion,

ANGHARAD

ESTONIA AC YN ÔL

gan DYFAN ROBERTS

Wythnos cyn y Nadolig diwethaf oedd hi. Rhyw hen slwsh o eira ar strydoedd Tallin, prifddinas Estonia ar lan Mor y Baltig. Gwynt traed y meirw yn torri trwy ddillad fel cyllell. Pobol yn eu hetiau a'u cotiau tewion yn gwthio i mewn i droli-bysus oedd eisoes yn orlawn er mwyn cael gwthio i mewn i siopau oedd eisoes yn orlawn. Gorlawn ar wahân i'r silffoedd. Hen ddyn tu ôl i 'styllen o stondin, ac o'i flaen ei nwyddau wedi eu gosod allan. Pedwar afal. Milwyr o'r hen Sofiet yn smocio tu allan i garafan gwerthu be' oedden nhw'n eu galw'n hambyrgars. Yr hogia lleol yn loetran tu allan i ddrws y parlwr gemau hap-chwarae. Y pimps a'r puteiniaid yn gogor-droi ger seler y 'Viru Hotel' yn barod am helfa'r nos. A minnau, naw llawr uwch eu pennau, yn edrych i lawr ar yr olygfa a meddwl, 'Be' aflwydd dwi'n da fan hyn?'

Wel, yr ateb uniongyrchol i'r cwestiwn yna oedd fy mod i yno ar fusnes. A'r busnes hwnnw oedd gwneud ymchwil ar gyfer drama y bwriadwn sgrifennu am hynt a helynt gwledydd cythryblus y Baltig, gan ganolbwyntio ar Estonia. Pam Estonia? Achos ei bod hi'n wlad fach — tua miliwn a hanner o boblogaeth, a thua dwy ran o dair o faint tir Cymru. Achos bod ganddi iaith a diwylliant hynafol, gyda thraddodiad arbennig mewn canu gwerin a chorawl. Achos ei bod hi wedi bod dan ormes cenhedloedd mwy ers canrifoedd. Ac yn bennaf achos ei bod hi, flwyddyn yn ôl, wedi torri'n rhydd o'i gormeswr ers yr hanner canrif ddiwethaf, yr Undeb Sofietaidd. Ie, cenedl fach yn ystod misoedd cyntaf ei hannibyniaeth ddiweddar a welais yn Tallin y Nadolig diwethaf. Ac er fy mod i'n cael ambell blwc digalon weithiau wrth weld y problemau enfawr yr oeddynt yn eu hwynebu, roedd hi'n faint cael bod yno i weld cenedl ar gychwyn codi ei hun ar ei thraed ymysg cenhedloedd y byd.

Wrth gwrs, mi fu Estonia yn weriniaeth annibynnol o'r blaen, rhwng 1919 a 1940. Roedd ganddi ei Senedd, ei system addysg a'i gwladwriaeth les, ac, roedd safon byw Estonia cystal ag un y Ffindir. Roedd hynny cyn i gatrodau'r Fyddin Goch rowlio i mewn, dan yr esgus eu bod yn amddiffyn y wlad rhag Hitler. Erbyn heddiw mae safon byw'r Ffindir gyda'r uchaf yn Ewrop. Mae Estonia hanner canrif ar ei hôl hi. Roedd hedfan o'r Ffindir lewyrchus ar daith hanner awr dros fôr y Baltig, fel petaech chi'n hedfan yn ôl mewn amser.

Chwerw yw etifeddiaeth yr Undeb Sofietaidd a'r Comiwnyddion yn Estonia. Gosodasant ar wlad fechan eu system ganolog eu hunain. Cymerodd y wladwriaeth ffermydd, diwydiant, siopau, pob dim i'w dwylo eu hunain. Mynnent ufuddod llwyr. Ni chaniateid gwrthwynebiad. Rheolent drwy arswyd. Lladdwyd ac alltudiwyd miloedd. Dywedir i Estonia golli traean ei phoblogaeth dros gyfnod y rhyfel. Bu'r ddwy alltudiaeth fawr yn 1941 ac 1949. Codwyd miloedd o deuluoedd o'u gwla'u a'u hysio i mewn i wagenni gwartheg, ar eu ffordd i Siberia. Gwragedd a phlant diniwed... dim ots pwy, cyn belled â bod y rhifau'n cael eu gwneud i fyny. Cyfarfyddais â dyn o'r enw Mart Muur. Fo yw un o arweinwyr Undeb Newyddiadurwyr Estonia. Roedd awyrgylch yr hen Sofiet yn ei

swyddfa — desg fawr, drysau trwchus, radio a theledu, ond mai fflag glas du a gwyn Estonia oedd ar flaen y ddesg, nid y faner goch. Fe'i magwyd yn alltud yn Siberia, ond bod ei deulu wedi gwneud yn siŵr ei fod yn gwybod mai Estoniad ydoedd. Roedd newydd wneud ffilm ar brofiadau Estoniaid alltud. Profiad dirdynol oedd ei gwyllo. Stori ar ôl stori am deuluoedd yn cael eu rhwygo, y tad i un gwersyll, y fam i rywle arall, y plant i gartrefi amddifad. Cymerid eu henwau oddi arnynt, gwahardd iddynt siarad na chanu mewn Estoneg. Does dim rhyfedd bod llawer iawn yn marw o dor-calon; neu'n tyfu gan feddwl mai Rwsiaid oeddynt. Cafwyd hanes trist am ŵr a ffeindiodd, yn 45 oed, mai nid Rwsiaid ond Estoniad ydoedd. Nid oedd gan y gŵr ond casineb llwyr yn ei galon at system a fu'n gyfrifol am ddwyn ei iaith, ei hanes, ei wreiddiau, mewn gair, ei eidentity oddi arno. Mae gan bron pob teulu yn Estonia heddiw rhywun a gafodd ei alltudio. Mae cysgod Siberia yn dal yn drwm ar y wlad.

Sut felly y parhaodd ysbryd y bobol yn wyneb yr holl ormes? Dyna ofynnais i amryw. Yn ôl Lya Oll, is-olygyddes papur Saesneg y *Baltic Independent*, roedd pobol ifainc yn gweld trwy holl ragrith y propaganda comiwnyddol. Fel pob comiwnydd da, ymunodd hi a'r 'pioneers' yn ei harddegau, a diflasu'n fuan iawn ar yr holl fartsio di-ddiwedd yn canu caneuon chwerthinllyd yn moli Lenin. Er na chai'r athrawon ddysgu ond fersiwn swyddogol Sofietaidd hanes Estonia, roedd y plant yn cael eu hatgoffa o'r gwir hanes gan eu rhieni gartref. Yn ôl yr Aelod Seneddol Mart Lahr a gyfarfyddais dros ginio ar ôl sesiwn brysur o'r Senedd, roedd yr hen bobol, er yr holl flynyddoedd o ddiodeff dan iau y gormeswr, yn ffyddiog y deuai cyfiawnder i Estonia un diwrnod. Dyna a'i ysbrydolodd yntau. Mae Mr Lahr wedi gwneud ymchwil ar hanes y 'Catrodau Distryw'. Adrannau o'r Fyddin Goch oedd y rhain, a laddodd a distrywio pentrefi Estonaidd cyfan yn 1941, ar orchymyn Stalin. Pan oedd y Sofiet mewn grym, cafodd ei fygwth ag alltudiaeth petae'n meiddio cyhoeddi ei ymchwil.

Un peth a gynhaliodd yr ysbryd Estonaidd drwy'r blynyddoedd tywyll oedd y canu a'r diwylliant gwerin. Mae gan Estonia Wyl Ganu fawr bob pum mlynedd, a chaniatawyd i'r traddodiad hwn barhau o dan y Sofietaid cyn belled nad oedd y caneuon yn rhy



Stadium yr Wyl Ganu.

'genedlaetholgar'. Euthum i noson o ddawnsio gwerin mewn neuadd fach yn hen ran o Tallinn, a braf oedd gweld yr hogia a'r genod, lawer ohonynt mewn gwisgoedd traddodiadol, yn dawnsio a chwarae gemau gwerin. Yn wahanol i'r traddodiad 'parchus' eisteddfodol sydd gennym ni yng Nghymru, roedd 'na rhywbeth hyfryd o anffurfiol a blêr ynglŷn â rhain. Cael hwyl drwy ddathlu'r hen ddiwylliant, dyna oedd y nôd. Mae miloedd o'r hen ganeuon a'r chwedlau wedi eu casglu yn Sefydliad Iaith a Llên Estonia, a threuliais brynhawn difyr yn pori drwyddynt yng nghwmni'r ceidwad Eha Viluoja. Cyfle hefyd i grwydro drwy'r eira heibio i hen ffermdai mawr pren yr Amgueddfa Werin yn Rocca-al-Marc. Sylwais bod nifer o'r adeiladau wedi llosgi. Yn ôl fy nhywysydd, dynes o'r enw Jutta Holst, roedd y llanciau Rwsiaidd a wnaeth y difrod wedi eu hannog gan eraill. Ers agor yr Amgueddfa bu dim llai na 11 tân amheus yno. Y pwrpas? Dangos beth maen nhw'n feddwl o ddiwylliant Estonia. Gweithred pobol anwaraidd, dwp, meddai Ms Holst. Cael fy atgoffa wedyn fod mewnffudo dychrynlyd wedi digwydd ers y

Rhyfel, gyda'r canlyniad erbyn heddiw bod 40% o boblogaeth Estonia o dras Rwsiaidd. Polisi cwbl fwriadol, er mwyn glastwreiddio a theneuo cenedligrwydd Estonia. Ac ar ben hynny, dywedir fod rhwng 100,000 a 200,000 o filwyr Rwsia yn dal ar dir Estonia rydd, ac yn gwrthod symud nes cael sicrhaf fod manau preswyl ar gael iddynt yn Rwsia. Does dim rhyfedd fod yr Estoniaid yn dal i edrych dros eu hysgwyddau ar y Brawd Mawr sydd am y ffin â hwy.

Ail-fyw y digwyddiadau a arweiniodd at annibyniaeth ddiweddar Estonia, y 'Chwyldro Cân' fel y'i gelwir, a wnaeth Anne ac Andres Allpere. Cyfieithydd oedd hi ac yntau'n athro ysgol. Cwpwl ifanc, yn byw mewn twll llygoden o fflat yn un o'r blociau llwydaidd mawrion hynny ar gyrrion dinas Tallinn. Grisau tywyll blêr, a hen ddynes yn sefyll ar y landing yn y llwyd-dywyll yn ein gwyllo'n pasio. Nid oedd gwres wedi bod ar gael y bore hwnnw gan fod y Cyngor yn ceisio arbed ar danwydd. Cyflog Andres ar gyfartaledd oedd £4 y mis, beth bynnag yw hynny mewn rwbls. Mae chwyddiant yn rhemp. Roedd 170 rwbl i'r bunt pan oeddwn i yno. Fis

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

ECO'R IFANC

gan **ANNA BRYN**
a **LLINOS HAF**

CORNEL JÔCS

C	R	E	G	Y	N	F	G	N	M
A	H	W	W	B	L	P	S	O	U
R	A	L	Y	O	F	D	R	L	S
H	U	I	L	A	T	Y	W	O	D
A	L	E	A	N	H	C	Y	L	N
W	P	R	N	I	B	W	C	E	D

Gwyneth: Beth sydd ar y teledu heno, Hywel?

Hywel: Yr un peth ag arfer — pot blodau, darlun a llwch.

Rydw i'n mynd i brynu ci du a gwyn, Bryn.

Pam un du a gwyn, Ffion?

Am fod y drwydded yn rhatach nag un lliw!

Sut wyt ti'n dal cwningen?

Gorwedd ar lawr a gwneud sŵn fel letys.

Pryd fydd ci pinc a smotiau du yn debygol o ddod trwy'r drws?

Pan fydd y drws ar agor!

Beth sydd yn felyn ac yn llawn sment?

Banana (mi wnes i ychwanegu'r sment i wneud y cwestiwn yn galed!)

Wêtyr! Wêtyr!

Beth Madam?

Mae 'na wybedyn marw yn nofio yn fy nghawl i!

Amhosibl, gall gwybedyn marw ddim nofio!!

Darganfyddwch yr 8 gair yn y grid uchod. Mae'r geiriau i gyd yn ymwneud â lan-y-môr:

BWCED

RHAW

CREGYN

MÔR


PÊL

HAUL


GWYLAN

TYWOD

Dyma rai o bethau yr ydych yn debygol o ddarganfod ar lan-y-môr. Enwch hwy ac yna eu lliwio.



OSMOND SHAW DEINIOLEN



GWERTHU

- TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn


LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)


870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

Beth sydd yng
nghanol y môr?
– Ô!



Beth sy'n ddu a
gwyn, yn byw
mewn jyngl ac yn
bwyta pysgod?
– Pengwyn ar
goll!



Lliwiau arbennig iawn
yw melyn, glas a choch.
Mae'n bosibl eu
cymysgu i wneud lliwiau
eraill. Ond pa liwiau yw'r
cwestiwn? Nodwch pa
liwiau ddylai fod yn lle'r
rhifau.

Geni ♥ Bedyddio ♥ Iloed ♥ Priodas ♥
Dywedodd ♥
Arlleluan ♥
Eiddo ♥
Amgylchedd ♥
Dyrchafiad ♥

✿ Aichlysur arbennig? ✿
✿ Amnheg unigryw? ✿
Beth am un o sampleri
**PWYTHAU
CAIN**
✿ Cynllunir pob sampler
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.
✿ Hefyd gwniadwaith o bob math
gwneud dillod, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.
✿ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438
Cartref Mewydd ♥ Darnau o farfddoniaeth

ynghynt y gyfradd oedd 80 i'r bunt. Nid oes begeriaid i'w gweld ar strydoedd Tallinn. Ynghudd mae'r tlodi. Pobol yn trio crafu byw ar yr hyn sydd ganddynt.

Er waetha'r tlodi roedd fflat Mr a Mrs Allpere yn glyd a chroesawgar. A llyfrau ymhobman wedi eu stacio yn ddwbwl ar bob sillff. Mae mynd mawr ar lyfrau yn Estonia, a phob siop yn llawn i'r ymylon. Y teledu ddim wedi dod yn unben, mae'n amlwg. Dangoswyd copi i mi o lyfr wedi ei deipio ar fwndel o bapurau gan deipiadur cartref. Llyfr oedd yn waharddedig yng nghyfnod y Sofiet, ac yn cael ei basio o law i law yn y dirgel. Fel hyn y darllenwyd *Animal Farm* a 1984, George Orwell. Roedd Anne yn cofio teuluoedd yn rhoi baner Estonia mewn boc haeam a'i chalddu yng ngwaelod yr ardd. Pan ddaeth dydd annibyniaeth Estonia, bu chwilio gwyllt am y boc! Stori arall a gefais oedd am y bedd bach ar fin y ffordd yn y wlad, bedd un o Frodyr y Goedwig (y mudiad Guerrilla) a gwmpodd yno mewn brwydr â'r milwyr Sofietaidd. Roedd blodau ffes yn cael eu rhoi ar y bedd bob dydd. Ond er gwaethaf yr holi gan yr awdurdodau, ddaru nhw erioed gael allan pwy oedd yn eu gosod. Mewn ffyrdd bach fel hyn yr ymladdai'r bobol yn ddistaw yn erbyn y gormeswr.

Yn ddistaw bach, hynny ydi, tan chwyldro 1988. Mae'r digwyddiadau'n fyw yng ngof Anne ac Andres. Dechrau'n annisgwyl wnaeth hi. Gŵyl ddiwylliannol yn yr hen dref. Cafwyd hwyl ar y canu, a chydiodd rhyw ysbryd yn y bobol. Symudwyd i stadiwm yr Wyl Ganu ar gwr y dref. Erbyn hynny roedd

bandiau roc wedi cymryd y llwyfan. Roedd fflagiau Estoniaidd gwaharddedig yn cael eu chwifio. Roedd geiriau herfeiddiol yn cael eu canu. Geiriau fel: 'Drychwch ar y mewnfudwyr Sofietaidd!' 'Dydi o'n dallt dim o'n hanes!' 'Peidiwch gwrando ar y sbiwyd a'u celwyddau!' 'Eich cyfrifoldeb chi yw harddwch hen wlad eich tadau!' Y dorf yn chwyddo i filoedd ar filoedd, a'r canu a'r dawnsio yn para drwy'r nos. Doedd 'na ddim malu ffenestri na chwifio drylliau. Dim ond cenedl yn canu ei ffordd tuag at ryddid, a fedrai'r awdurdodau wneud dim i'w rhwystro. 'Roedd hi'n wefr cael bod yno,' meddai Anne ac Andres, ac mae record o'r caneuon yn dal i'w hysbrydoli o hyd.

A minnau'n gyrru'n ôl i'r maes awyr mewn tacs siabi, roedd y geiriau a'r caneuon, a'r gobaith am ddyfodol gwell yn atseinio yn fy meddwl innau. Dyn y tacs yn dweud eu bod nhw'n ofni, bythefnos ynghynt, na fyddai dafn o betrol ar ôl yn y wlad. Ond mi gafwyd peth o rywle. Ar y maes awyr roedd un awyren yn sefyll, wedi ei pheintio yn lliwiau Estonia. Ond o leiaf mae'n dechrau creu fflyd awyr genedlaethol. Ac wrth hedfan uwch trefi llwydaidd Estonia, ac ymadael â gwlad sy'n wynebu problemau economaidd a gwleidyddol enfawr, teimlwn eu bod o leiaf ar eu ffordd i godi'r hen wlad yn ei hôl. Mae dihareb yn Estonia: 'Gad i raff y meistr lusgo ar lawr'. Erbyn hyn maent hwy wedi cymryd cyfrifoldeb am y rhaff, ac mae ganddynt ddigon o ddycnwch a dewrder i dynnu Estonia yn ôl i'r ugeinfed ganrif. Ydi'r un rhinweddau gennym ni?



Elen Jones o'r Waunfawr yn mwynhau ei thrip i gopa'r Wyddfa yng nghwmni Mici Plwm a Hogia'r Wyddfa.

Yn y rhifyn ola' o'r Eco
cafwyd adroddiad am Elen
Jones, neu Nel Bach Lôn Glai
i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr,
yn cael syrpreis go iawn.

Bellach fe welwyd yr hanes ar raglen gyntaf y gyfres 'Fe Hoffwn I' ar nos Sul, Mehefin 21ain. Ar yr un rhaglen fe ymddangosodd un arall o drigolion y fro, sef Lyndsey Parry, 12 oed o 11 Porth Y Gogledd, Deiniolen. Mae Lyndsey yn adnabyddus i'r rhan fwyaf ohonom fel cantores addawol. Collodd gyfle i rannu llwyfan ag un o'i harwyr, Bryn Terfel, yn eisteddfod Llangollen 1990, ond cafodd gyfle i wireddu ei huchelgais ar y rhaglen. Yn ôl pob sôn bydd un arall o'r ardal yn ymddangos, sef Eifion Harding o Benisarwaun. Bydd yn rhaid i chwi aros tan y rhaglen ar Orffennaf 19 i weld beth oedd ei uchelgais ef.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING
MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORHTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
5754

Aled
Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

GERAINT
OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau



Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn:
Waunfawr 552

Siop  **Caffi**
Bryn Pistyll
Anrhegion at bob achlysur
Pot Pourri - Basgedi Blodau Sych
Jams a Siwti Cartref - Tegannau Pren
Olewon Aromatherapi - Clustogau
Lluniaeth Ysgafn - Dioddydd Oer
Teisiannau Amrywiol i fynd adref
DEWCH DRAW AM BANED.
Agored trwy'r wythnos 9-4 p.m.

J.R. PRITCHARD
BONTNEWYDD

Ffôn:
Caernarfon 3507

Gwneuthurwyr
Ffenestri a Drysau
Ffoniwch am fanylion
a phrisiau cystadleuol



NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen, 8 Nant Ffynnon. Ffôn: 871457



Dafydd Pritchard, Nant Peris, gyda Roy a Bill Williams, Pwerdy Dinorwig; y gorau lleol yn y dosbarthiadau agored (ail ddosbarth).



Alan Jones, Pontllyfni, 1af yr Ail Ddosbarth, gyda Glen.

Treialon Cŵn Defaid: Cychwynwyd Treialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch eleni ar nodyn uchel. Noddwyd cystadlaethau dydd Gwener, y dosbarth lleol a'r ail ddosbarth yn gyfan gwbl gan 'National Grid' ac fe wenodd yr haul drwy'r amser. Un ferch, o Sweden, a gymrodd ran ymysg y nifer fawr o ddynion a ddaeth o bob rhan o Gymru. Mae digon o amser i chwi'r merched i baratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf! Cafwyd gwobr newydd eleni i'r ci mwyaf anlwcus a chyn i'r 'Draenog' gael y stori — ci o Lanrug oedd hwnnw!

Testun diddordeb ar y cae oedd taflen Treialon Cŵn Defaid Nant Peris yn 1952 a nodwyd bod pedwar a restrwyd ar y daflen honno yn

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

cystadlu eto eleni — yn dal i fynd ar ôl deugain mlynedd!

Dyma'r canlyniadau —

Dosbarth Agored (Cwpan Morris Bros): 1, Glyn Jones, Bodfari, *Cap*; 2, Hugh Owen, Caergeiliog, *Spotan*; 3, J. R. Griffith, Talysarn, *Moss*; 4, J. E. Lightfoot, Llandegla, *Black*; 5, Glyn Howells, Caerfyrddin, *Cass*; 6, Glyn Jones, Bodfari *Taff*; 7, R. V. Hughes, Rhosmeirch, *Tess*; 8, Dai Jones, Llanilar, *Mat*; 9, Idris Morgan, Aberystwyth, *Chip*; 10, J. R. Griffith, Talysarn, *Sam*.

Ail Ddosbarth (Cwpan Wavell Roberts): 1, Alan Jones, Pontllyfni, *Glen*; 2, R. V. Hughes, Rhosmeirch, *Tess*; 3, M. Evans, Llanfachreth, *Meg*; 4, Glyn Roberts, Caernarfon, *Mig*; 5, Dafydd Pritchard, Nant Peris, *Roy*; 6, Huw Williams, Abersoch, *Bet*.

Enillwyd **Tarian Gwesty'r Fictoria** (y gorau lleol yn y dosbarthiadau Agored/Ail Ddosbarth gan Dafydd Pritchard, Nant Peris. Enillwyd **Cwpan FMC** (y gorau dan 25 oed) gan R. V. Hughes, Rhosmeirch.

Dosbarth Lleol — Cwpan Rheilffordd yr Wyddfa i'r gorau o'r plwyfi Llanberis, Llanrug, Llanddeiniolen a Llandinorwig; a **Cwpan Gwesty Dolbadarn** i'r gorau o blwyf Llanberis: 1, W. H. Hughes, Deiniolen, *Bet*; 2, Dafydd Pritchard, Nant Peris, *Roy*; 3, Brian Owen, Nant Peris *Speed*; 4, Michael Williams, Llwyncoed, Cwm-y-glo, *Roy*; 5, John Closs, Llanberis, *Bob*; 6, Elwyn Williams, Penisarwaun, *Sian*.

Eto eleni i Huw Morgan, Bethel, yr aeth **Cwpan Llwyncoed** — y gorau lleol dan 21 oed, ac fe enillwyd **Cwpan Ras yr Wyddfa/Rhedwyr Eryri** am yr eildro gan Huw Owen, Caergeiliog. Enillydd **Tlws Cwmni Tithebarn**, i'r gorau lleol dros hanner cant oedd M. H. Hughes, Deiniolen.

Enillwyr y raffl oedd — 1, Ronnie, 30 Dôl Elidir, Llanberis (£100); 2, Plas Tirion 673190 (£50); 3, Enfys 870248 (£25); 4, Humphrey, Tŷ Coch, Betws Garmon (Chwisgi); 5, Rhuthun 4983 (Chwisgi); 6, Anwen Bohana d/o Laura Ashely (Vodka); 7, R. E. Humphreys, 87 Cae Gwyn, Caernarfon (Addurn); 8, C. Jarrett, d/o Farmers Mart (tocyn trin gwallt); 9, Gwenda Jones, Gwyddfor, Rhosgadfan (twrci); 10, Waunfawr 569 (hwyaden); 11, Twm Closs, Cricieth (olew); 12, Valley 740568 (tocyn prynu cig); 12, Wil llefrith (sherry); 14, Dylan, Ysbyty Gwynedd (olew); 15, K. Robinson, 11 Water Street, Llanberis (basged o ffrwythau); 16, Derek 871181 (gwirowd).

Dymuna'r pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.

Dymuniadau gorau i Alan ym Mabolgampau Trawsblaniad yn Exeter yn ystod mis Gorffennaf gyda golff a snwcer.



Glyn Jones, Bodfari, 1af y Ddosbarth Agored gyda'r cwpan.

Cwmni THEATR Gwynedd

yn cyflwyno

“THE DRUID’S REST”

gan

Emlyn Williams

Comedi arswyd gyflym sy'n cydio yn y dychymyg wedi'i gosod mewn tafarn fechan rhywle yn Ngogledd Cymru ar ddechrau'r ganrif.

Cast: Myfanwy Talog, Siân Wheldon, Huw Tudor, Wynford Ellis Owen, Eric Wyn, Rhys Richards, Martin Thomas a Dyfrig Evans

Bydd y ddrama i'w gweld ar lwyfan Theatr Gwynedd rhwng nos Fercher a nos Sadwrn, Awst 5ed a 29ain am 8.00 p.m.

Peidiwch â'i cholli! Archebwch eich tocynnau yn awr drwy ffonio

Y Swyddfa Docynnau: Bangor (0248) 351708

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp

a chyfeiriad arni i'r Is-Ysgrifenydd, sef

John H. Hughes, Tan y Clogwyn

Llanberis. Gwynedd LL55 4 LF

Ffôn: Llanberis 871562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Is-Ysgrifennydd erbyn Awst 31ain, 1992

**CYMANFA GANU
HENADURIAETH ARFON
Capel Coch, Llanberis**
Nos Sul, Gorffennaf 5ed am 6 p.m.
Arweinydd:

T. Gwynn Jones, Porthaethwy
Bws yn cychwyn o Ddinorwig 5 p.m.
ac yn teithio trwy Benisarwaun,
Brynrefail a Llanrug i Llanberis

'Un funud fach ...? Y BONT

Fedra i ddim nofio. A does gen i ddim cwch. Felly rwy'n reit falch fod yna bont yng Nghaernarfon dros yr afon o'r Cei i Goed Helen. Does raid ond parcio'r car wrth y castell a cherdded ryw hanner canllath dros y bont, a dyna ni yn y parc yng Nghoed Helen. A dyna le braf ydi hwnnw, efo'i swings a'i sleidiau, siôs a fframiau dringo, tenis a bowls a golff. Ewch yno os cewch chi gyfle. Ond sôn am y bont yr oeddwn i. Gall honno droi ar ei hechel ac agor er mwyn i longau basio heibio iddi o'r harbwr i'r Fenai. Mae hi'n bont hwylus a chlyfar. Ond weithiau, mwy piti, mae'n torri. Digwyddodd hynny yn ddiweddar â'r bont wedi agor. Doedd dim modd ei chau nes i'r peirianwaith gael ei drwsio. Ac felly roedd yn amhosibl cerdded dros y bont am rai dyddiau.

Mae yna fath o fwch rhwng pobol a Duw sy'n gwneud i ni fod yn bell oddi wrtho. Byddwn weithiau'n gweddio ac yn teimlo nad oes neb yn gwranddo. Byddwn weithiau yn ei chael yn anodd i dderbyn rhai pethau sy'n digwydd yn ein bywydau. Byddwn weithiau hyd yn oed yn cael trafferth i gredu yn Nuw. Rhyw bethau fel'na sy'n dangos y bwch yma i ni. A dyna braf ydi cael gwybod bryd hynny fod Iesu Grist fel pont yn ei gwneud hi'n bosibl i ni ddod yn agos at Dduw. A'r hyn sy'n dda ydi na wnaiff y bont yma byth dorri, gan fod yr Iesu yno bob amser yn ein gwahodd ni i ddod trwyddo at Dduw.

JOHN PRITCHARD

MODURDY PLAS BACH

CAEATHRO

Ffôn: Caernarfon 2072

Gwerthu, Trwsio

Trin Cyrff

H.P. ar gael

Dathlu Pen-blwydd Merched y Wawr yn Chwarter Canrif Oed

Fe aethom ni yno — yno i'r Parc ger y Bala ar Sadwrn, Mai 16. Dyma ddydd y bererindod fawr gan dair mil o Ferched y Wawr i'r Parc. Merched o bob rhan o Gymru — aelodau'r rhanbarthau o Fôn i Fynwy.

Yn y Parc yn 1967 y sefydlwyd y Mudiad gan gangen fechan o Sefydliad y Merched. Yr oeddynt yn gwrthwynebu Seisnigrwydd y mudiad hwnnw, ac fe'i symbylwyd gan Zonia Bowen a Sulwen Davies ac eraill o gangen y Parc i sefyll yn gadarn yn erbyn hyn.

Prif amcan Mudiad Merched y Wawr yw hyrwyddo diwylliant, addysg, a'r celfyddydau yng Nghymru — a hynny drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg — ac er lles merched yng Nghymru. Mae'r aelodaeth yn agored i ferched sydd yn cefnogi'r amcanion yma.

Yn y Parc cynhaliwyd Seremoni Dadorchuddio'r lechen i gofio'r sefydlu gan Mair Penri — bu rhaid gwneud hyn ddwywaith gan afrifed y dorf, ac felly hefyd yng Nghapel Tegid perfformiwyd y Pasiant ddwywaith drosodd.

Yn Ysgol y Berwyn darparwyd te ardderchog i'r dorf gan ferched canghennau Meirionnydd, a phob rhanbarth wedi dod a Chacen y Dathlu hefo nhw — rheini i gyd dan orchudd o siwgr gwyn a phatrwm glas a melyn drostynt.

Yn ystod y prynhawn cludwyd baneri'r rhanbarthau mewn gorymdaith yn y Bala gan y swyddogion. Baneri oedd y rhain a gynlluniwyd gan aelodau celfydd y rhanbarthau.

Bu'r tywydd yn rhyfeddol o ffafriol, a'r trefniadau heb eu bai, a chawsom ddiwrnod heulog braf yn y Parc, ac yn y Bala.

Yr wythnos ganlynol gwelwyd y baneri yn Eisteddfod yr Urdd yn Rhuthun.

DRAENOG

Beth sy'n gwneud torth dda? Pam mae rhai pobl yn mynnu prynu eu bara gan fecar arbennig? Clywais sôn am fecar profiadol o'r 'topia 'cw' yn helpu ei wraig i siopa. 'Rho fisged yn y fasgiad', oedd y gorchymyn. Dewiswyd pecyn lliwgar iawn, ac agorwyd y paced gyda phaned. Blas rhyfedd iawn oedd ar y bisgedi — ond wedyn beth arall sy' i ddisgwyl gyda bisgedi cwn! Taflwyd y bisgedi, a chlywais fod ci Sling yn troi ei drwyn arnynt. Gobeithio fod y becar yn gwisgo'i sbectol pan yn pobi nesaf!

DRAENOG

Bywyd caled fu amaethyddiaeth erioed. Wedi crafu bywoliaeth o'r tir, daeth rhai ffermwyr i'w cydnabod yn arbenigwyr mewn gwahanol 'feysydd' — cnydau, stoc, etc. Roedd yna ffermwr o ardal Bethel yn ffyddiog felly y gallai droi at gymydog â chanddo 40 mlynedd o brofiad ar y tir pan oedd eisiau prynu llo FANW. I ffwrdd â'r arbennigwr i Fôn a dychwelyd gyda llo iach yr olwg. Gwnaed cryn sylw fod bargaen dda wedi ei tharo. Siom o'r mwyaf o fewn y mis oedd darganfod mai llo GWRW a brynwyd! A'r ardal yn meddwl fod yr arbenigwr yn "judge" go lew!

Llongyfarchiadau i Owain Griffiths, Nant Peris, am ennill pedair medal ym Mabolgampau Myfyrwyr Colegau Prydain yn ddiweddar.

Bistro

43-45

Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn 871278



CURIAD CALON CYMRU



CURIAD CALON CYMRU

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

FFENESTRI CELTAIDD

(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

★ Gwydro Dwbl a Sengl

★ Gwaith Domestig a Chontract

★ Gwarant 10 mlynedd

★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



CYMHARWCH EIN PRISIAU CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160



DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Plaid Cymru — enillwyr Clwb Cant am fis Mai — £10: Miss Pat Williams, 37 Rhydfadog; £8.50: Mr Ifan Wyn Williams, 12 Ffordd Deiniol. Mis Mehefin — £10: Miss Angharad Williams, 29 Stryd Newydd; £8.50: Mrs Ruth Jones, 94 Pentre Helen.

Cyngor Eglwysi: Dymuna'r Cyngor ddiolch i bawb, yn gasglyddion a chyfranwyr, a fu'n cefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol 1992. Casglwyd £342 yn Neiniolen a Chlwt-y-bont, a derbyniwyd cyfraniad o £8 o Ddinorwig, i wneud cyfanswm o £350 ac fe'i hanfonwyd i'r pencadlys. Bydd y Cyngor yn cyfarfod tua canol mis Gorffennaf i drefnu rhaglen waith am 1992-93.

Y Ganolfan: Gair i atgoffa defnyddwyr y bydd Y Ganolfan ar gau am bythefnos 2 i 15 Awst. Gwahoddir mudiadau, sydd heb wneud hynny eisoes, i roddi gwybod cyn gynted â phosibl i'r Ysgrifennydd Llogi, eu gofynion am dymor y gaeaf.

Ysgol Gwaun Gynfi: Enillwyr Cwlb Cant am fis Mai — 1, E. Morris (10); 2, D. Hunter (51); 3, D. Williams (6).

Clwb Elidir: Cynhaliwyd cyfarfod ar Mai 12, dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones, pryd y cafwyd sgwrs gan Mrs Buddug Jones am ei gwyliau yn Malta. Gwesteion y te oedd Mrs Annie M. Morris, Mrs Eve Braithwaite a Mrs Buddug Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Annie M. Morris a'r enillydd oedd Mrs Janet Bingham.

Bu cyfarfod arall ar Mai 26 pryd y cafwyd gwledd i ddathlu pen-blwydd Miss Lizzie Thomas yn 80 oed. Rhoddwyd teisen pen-blwydd yn anrheg gan Mr Tydfil Jones a rhoddwyd y te gan aelodau'r pwyllgor ac unigolion eraill o'r Clwb ac fe fwynhawyd y prynhawn gan bawb. Rhoddwyd y wobwr lwcus gan Mrs Janet Bingham a'r enillydd oedd Mrs Jane Jones. Croesawyd yn ôl i'n plith Mrs Hannah J. Thomas ar ôl ei damwain.

Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Ymddiriedolwyr Deiniolen am eu rhodd o £30 i'r Clwb.

Ar 6 Mehefin bu cyfarfod arall dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Gwesteion y te oedd Mrs J. Eirlys Williams, Mrs Jennie Cashman a Mrs Jennie Williams. Rhoddwyd y raffl gan Mrs J. Eirlys Williams ac enillwyd gan Mrs Annie M. Morris. Cydymdeimlwyd â theulu Mrs Mary Hughes, aelod hyna y Clwb oedd wedi dal yn selog i'r holl gyfarfodydd hyd yn ddiweddar. Yr oedd yn dda gennym glywed fod Mrs Jennie Cashman wedi dychwelyd o'r ysbyty. Cawsom rodd anrhydeddus unwaith yn rhagor gan Mr Robert Ll. Thomas, Rhydfadog. Diolch yn fawr.

Bydd y trip blynyddol ar Fehefin 25.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Helen Roberts a'r teulu, 32 Pentre Helen, ddiolch o galon i'r teulu a'r cymdogion am eu caredigrwydd ac am y cardiau a'r rhoddion yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl.

Dymuna teulu'r diweddar Jeffrey Pentre Helen, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth sydyn o golli priod a thad annwyl. Hefyd, diolch am yr holl gardiau a'r rhoddion a gyfranwyd tuag at Feddygfa Deiniolen.

Dymuna Mrs Mair Morris, 23 Rhydfadog, ddiolch yn gywir iawn i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Mary Evans, 6 Llwyn, Rhosgadfan, Tommy, Cadwaladr, Tecwyn a'r teulu oll, ddiolch o galon i bobl Deiniolen a'r cylch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt trwy gardiau, ymweliadau a galwadau ffôn, yn eu profedigaeth sydyn o golli gŵr annwyl, tad, taid a hen-daïd gofalus, sef Elias Evans (Lai).

Diolch hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Glwb yr Heulwen, Pen-y-groes a Chanolfan Ddydd Maesincla, Caernarfon.

Dymuna teulu'r diweddar Jeffery F. Williams, 46 Pentre Helen, ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant yn eu profedigaeth, ac am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Ward Ercol, Ysbyty Gobowen, Croesoswallt.

Dymuna Sandra ac Ifan Lloyd Evans ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs Annie Thomas, 4 Bro Deiniol, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion, ymhell ac agos, am yr holl anrhegion, arian a'r llw cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch o galon i bawb.

ER COF AM ELISABETH GRIFFITH, DEINIOLEN

'Rôl machlud mwyn mis Mai,
Fe droediaist trwy y dyffryn.
Ymhell i dŷ dy Dad,
O sŵn y byd a'i ddychryn.

Ond gwelaf di yn troi
Ac edrych arnom ennyd,
A hiraeth ar dy bryd
Am gwmni ac am aelwyd.

Ni hoffai fynd a'n gadael,
Fe geraist fyth dy fywyd.
A'th gartref glân, a'th gapel prudd
A gollant eu hanwilyd.

Wrth deithio 'mlaen gobeithiwn
Y cawn dy gwmni tirion,
Ar ryw fis Mai, ar doriad dydd
Yng ngwynfyd yr angylion.

Mair P. Wood
28 Enkworth Road, Weymouth
(gynt o Ddeiniolen)

Siôn Ifan a Siân hefyd — wedi mynd
Nid mwy i ddychwelyd.
Siwrnai bell tros sarnau byd
I wylfa tragwyddolgyd.

Cae Rydau

W. Jones

Seindorf: Daeth llwyddiant unwaith eto i aelodau o'r Seindorf mewn cystadleuaeth yn Rhyl yn ystod y mis — **Unawd dan 10 oed:** 2, Jennifer Lyn Morris; **Air-Varie dan 10 oed:** 2, Jennie Lyn Morris; **Unawd 14-15 oed:** 1, Euros Williams; **Air-Varie 14-15 oed:** 1, Euros Williams; **Air-Varie 16-18 oed:** 2, Siân Griffiths; **Unawd dros 18 oed:** 1, Iwan Williams; **Air-Varie dros 18 oed:** 1, Iwan Williams. Hefyd llongyfarchiadau i Eilir Williams, Euros Williams, Martin Williams ac Emily Roberts ar gael eu dewis i Fand leuenctid Cenedlaethol Cymru. Mae hon yn anrhydedd fawr iawn i'r pedwar; hefyd i Gavin Saynor ar gael ei ddewis yn eilydd.



Llun Euros Williams, iwan Williams, Siân Griffiths a Jenny Lynne Morris gyda'u gwobrau o'r gystadleuaeth yn Rhyl.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Trefniadau Blodau Sych yn ôl eich gofyn

Alwyn a Sarah Jones

Trefniadau Blodau Ffres

Danfôn blodau i ysbytai a chartrefi henoed

Torchau blodau Stoc o flodau ffres

Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau Galwch neu ffoniwch am fanylion

RACCA

PENISARWAUN

FFÔN: 870605

Buddugoliaeth i Ysgol Brynrefail!!

Pwy call fyddai'n troedio dros riniog ei ddrws ar ddiwrnod glawog, gwyntog a chychwyn am Rhuthun. Dyna yn union a wnaeth criw ohonom ni o Ysgol Brynrefail er mwyn mynd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mro Glyndŵr i gystadlu ar yr adroddiad i bartion o bobl ifanc rhwng pymtheg a deunaw oed.

Oes yna unrhyw beth sy'n waeth na sefyll yn disgwyl am ragbrofion am dros awr ac i goroni'r cwbl y beirniad wedi cael ei ddal mewn man arall am awr? Choelia i fawr. Traed pawb yn fwdlyd a gwalltiau fel cynffonnau llygod. Ond er hyn oll roedd pawb yn edrych ymlaen at gael yr adrodd drosodd a mwynhau gweddill y diwrnod yn chwiloa mewn gwahanol stondinau a gwrandao ar grwpiau ym mhabell Ewroc.

Crynai'r parti yn yr ystafell rhagbrofion gan wenu'n ddel ar y beirniad cyn adrodd, ac yna ei heglu hi allan gydag ochenaid o ryddhad. Ond roeddem wrth ein boddau pan glywsom ein bod ni wedi llwyddo i ymddangos ar y llwyfan am bedwar y prynhawn. Felly i ffrwd â ni yn ôl i'r ystafell yn yr ysgol rhag y glaw ac i gael mwy o ymarfer!

'Roedd nerfau pawb wedi chwalu ar lwyfan y pafiliwn a'r mwyafrif ohonom ni heb fod ar lwyfan mor enfawr erioed o'r blaen. Cerddodd pawb yn dactyl ar y llwyfan, ac wedi gwneud y gwaith, cerdded oddi arno ond gan deimlo'n llawer brafiach erbyn hyn. Daeth canlyniad y gystadleuaeth o gefn y llwyfan a phawb yn gwrandao'n astud yn yr ystafell ymgynnull. Wel, sôn am floeddio â balchder wrth glywed cyhoeddi enw Ysgol Brynrefail. Roeddem wedi dod yn gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd! Gwobrwywyd y parti â thlws coffa Rachel Bevan Griffiths.

Roedd yr holl aros blinedig, y deffro plygeiniol, a'r stompio yn y glaw, wedi bod yn werth chweil wedi'r cwbl.

SIONED WYN JONES (Blwyddyn 4)

Taith Ysgol i Llynllifon

Ar y 5ed o Fehefin aethom ar daith i Llynllifon. Ar y bws roeddem yn eistedd fesul tri ac roeddem wedi cael ein wasgu ar y bws. Ar fws dau lawr yr oeddem. Pan gyrhaeddasom Glynllifon doedd y bws ddim yn ffitio trwy fynedfa Glynllifon oherwydd



roedd y fynedfa yn siâp pont. Oherwydd hynny doeddem ddim yn gallu mynd trwy'r bont. Cerddodd y plant a'r athrawon i Llynllifon ei hun.

I ddechrau aethom i weld y planhigion a doeddwn i ddim yn hoffi fana. A peth arall doeddwn ddim yn hoffi oedd oglau y moch bach. Roedd un mochyn bach yn wythnos oed ac roedd hwnnw yn ddel. Gwelsom y ceffylau hefyd ac ar rai o ddrysau'r stablau roedd yn dweud 'This Horse May Bite'. Wedyn wrth ymyl y ceffylau roedd yna bobl yn torri coed.

O fanno aethom i'r fferm a gwelsom foch bach a gwartheg bach tua pythefnos oed ac roedd un ohonynt yn sugno fy mys. Roedd rhai du i gyd ac roedd rhai yn ddu a gwyn. Hefyd roedd dyn yn dweud faint roeddent yn yfed o lefrith bob dydd. Tua wyth peint bob dydd fyddent yn yfed. Aethom i'r goedwig wedyn a gwelsom ddynion yn y goedwig ac roedden yn dangos pa goed oedd yn Glynllifon, a sut i wybod faint oedd oed coed.

O fanno aethom i weld y tŵr ac roedd dynion yn dangos y tŵr i ni. Aethom trwy dwnel mawr ac roedd hi'n dywyll iawn yno. Wedyn roedd y dynion yn siarad gyda ni. O fanno aethom i weld y defaid ac roeddent yn cael fffisig a gwelsom rhai yn cael eu cneifio. Wedyn aethom ar dractor i'r lle roeddem ar y dechrau. Aethom i weld y peiriannau oedd yng Nglynllifon yn yr hen oes. Cawsom fynd i eistedd ar yr hen dractor hefyd. Wedyn aethom i'r siop. Wedyn aethom i'r bws i gael ein cinio.

Ar ôl bwyta ein bwyd aethom i Ddinas Dinlle a cherddodd y plant a'r athrawon am dro. Roeddem yn taflu cerrig i'r dŵr. Ar ôl cyrraedd y siop cawsom brynu pethau da, a rhai athrawon yn cael paned o de. Aethom i'r bws ac roedd dwy athrawes yn dal i gael paned tra oedden ni i gyd yn y bws. Pan gyrhaeddasant y bws roedd pawb yn gweiddi 'hwre!' Y ddwy athrawes oedd Mrs Turol a Mrs Ellis. Nes i fwynhau y daith i Llynllifon ac i Ddinas Dinlle.

BETHAN WILLIAMS 11

Cystadlu gydag Ysgol Glanaethwy

Wel, dyna lle roeddwn i yn sefyll ar faes Caernarfon yn disgwyl i'r bws gyrraedd i fynd â ni i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1992 ym Mro Glyndŵr. Hanner awr wedi chwech yn y bore ydoedd ac nid oeddwn wedi deffro yn iawn eto. O'r diwedd daeth y bws, ac roeddwn yn edrych ymlaen yn arw at y cystadlu. Ar ôl codi rhai o'r plant eraill ym Mangor cychwynasom ni ar ein taith i Rhuthun. Wedi cyrraedd Rhuthun aethom i gyd i Ysgol Brynhyfryd am ragrawf y ddawns greadigol 12-15 oed — am ugain munud wedi wyth. Roedd llawer o ysgolion eraill yno, a rhai ohonynt yn ardderchog o'u cymharu â'i gilydd. Perfformiasom ni yn grêt yn y rhagbrawf ac roedd ein rhieni a Cefin, sef ein hathro, yn falch ac yn hapus am y perfformiad.

Wedi gorffen y rhagbrawf aeth llawer ohonom ni i weld yr ail griw o Ysgol Ddrama Glanaethwy yn gwneud eu cyflwyniad llafar. Ar ôl gweld y rhagbrofion aethom o gwmpas y maes. Cawsom gyfle i weld y ffair fach oedd yno, y gwahanol stondinau a gweld y gystadleuaeth dawnsio disgo ym mhabell Ewroc. Daeth yn amser mynd yn ôl i Ysgol Brynhyfryd am ragbrawf y gân actol i Ysgolion Uwchradd neu Adrannau Cymuned. Aethom i gyd i newid a chael colur ar gyfer y gân actol. Daeth amser perfformio ac roeddem wedi canu nerth ein pennau ac wrth lwc nid aeth dim byd o'i le. Ar ôl perfformio cawsom wybod na chawsom ni lwyfan gyda'r ddawns greadigol ond roeddem yn hapus gyda'n perfformiad. Cawsom lwyfan gyda'r gân actol ac roeddem wrth ein boddau.

Aeth yn bedwar o'r gloch yn y prynhawn ac yn amser i bawb gael colur. Roeddwn i yn nerfus iawn ac roedd fy ffrindiau felly hefyd. Wel, aeth y cyflwyniad llafar ar y llwyfan a chael llawer o gefnogaeth gennym ni. Aeth y gân actol gyntaf ar y llwyfan. Roedd yn ardderchog. Wrth gwrs nid oeddem wedi gweld yr un gân actol yn y rhagbrawf gan fod yn rhaid i ni aros yn ein stafell wisgo. Wel, ein tro ni i berfformio ydoedd, ac fel roeddem yn mynd i ddechrau diffoddodd goleuadau y llwyfan. Roedd storm anferthol ar ei ffordd i Rhuthun a ninnau ar ganol cystadleuaeth. Daeth y golau yn ôl a chawsom berfformio. Roedden ni yn wych mae'n rhaid i mi ddweud,

ac roedden wrth ein boddau ein bod wedi cael y fraint o berfformio ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Wel daeth y storm anferthol ac roedd yn rhaid i bawb eistedd yn y pafiliwn nes yr oedd yn saff i fynd allan. Daeth y canlyniad ac fel dywedodd Angharad Mair, 'Wel mae'n bleser gen i ddweud mai Ysgol Glanaethwy sy'n mynd â'r wobwr gyntaf heddiw!' Wel roedd sgrechian a hwrê fawr o gwmpas y pafiliwn i gyd. Diffoddodd y goleuadau eto yn y pafiliwn ond roedden yn gorfod aros am dros awr cyn i neb fynd ar y bws. Cawsom fynd o'r pafiliwn ac i'r bws. Roeddwn i mor hapus â'r gog, wel pwy fasa ddim ar ôl ennill dwy gystadleuaeth, sef y cyflwyniad llafar a'r gân actol. Diolchaf innau, a holl aelodau Ysgol Glanaethwy, am waith caled Cefin a Rhian Roberts.

Y diwrnod hwnnw oedd y gorau a gefais erioed!

ELERI ANN ROBINSON, 15

Andros o Ffliwc — mwy o lwyddiant yn Steddfod yr Urdd

Pan ddywedodd yr athrawes, 'Oes yna rywun wedi gwneud gwaith llafar ar dâp ac wedi galw eu hunain yn MENIACS?'

Aeth ias oer trwyddom a dywedodd Delyth yn ddistaw, 'Sian a fi ydy nhw.'

Ychwanegodd yr athrawes, 'Wel, rydych wedi cael ail!'

Roeddem mor gynhyrfus doedd hi ddim ond o drwch blewyn na wnaethom ni neidio drwy'r to! Roeddem bron â rhoi y ffidil yn y to ond does gennym ddim i'w golli — roedd y sialens yno yn ein disgwyl.

Y testun oedd 'Hobiau'. Aethom ynglŷn â'r pwnc drwy gyfansoddi penillion a rapiau, adrodd, canu, dweud ein barn a llawer, llawer mwy.

Rhaid i ni ddweud i ni gael andros o hwyl yn ei wneud, er ein bod yn cytuno i anghytuno lawer gwaith. Ond mae llawer o ddŵr wedi mynd o dan y bont ers i ni ddadlau yn groch gyda'n gilydd.


Roedd hi yn fraint ac anrhydedd cael ail am waith tâp yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn enwedig gan nad oedd neb yn deilwng o'r drydedd wobwr.

Dyma'r tro cyntaf i ni drïo ac roedd yn 'beginners luck' go iawn!

Efallai bydd y lwc gyda ni y flwyddyn nesaf eto. Pwy a ŵyr? ... gobeithio ...

DELYTH HUMPHREYS a SIAN DAVIES 1E

BETHEL SCAFFOLDING



BRYN Y CHWILOG, BETHEL
Ffôn: Portdinorwig (93) 670325

- ★ Sgaffaldiau ar gyfer jobsus
- ★ Prisiau cystadleuol
- ★ Ffoniwch i gael estimate yn rhad ac am ddim

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

CHWILOTA

LLADD TRI AR YR WYDDFA



Ddeugain mlynedd yn ôl i Awst eleni, lladdwyd tri o bobl ar Yr Wyddfa. Does dim byd yn anghyffredin iawn yn hynny; yn affodus mae nifer o bobl yn cael eu lladd a'u hanafu ar lethrau'r Wyddfa a mynyddoedd eraill Eryri yn rhy aml. Ond damwain awyren fu'n gyfrifol am y marwolaethau hyn, ac y mae angen mwy o wybodaeth am y ddamwain gan ddarllenwyr yr *Eco*.

Roedd dydd Llun, Awst 1leg 1952 yn un o'r dyddiau gwaethaf erioed ar yr Wyddfa yn ystod cof pobl o hafau'r fro. Gorchuddiwyd y mynydd gan niwl, ac roedd yn storm enbyd o gorwyntoedd a glaw. Er hynny, roedd y trên bach yn dal i gario ymwelwyr i'r copa.

Am hanner awr wedi unarddeg y bore, roedd trên yng ngofal George Sellars y gyrrwr, yn barod i gychwyn o'r copa ar ei siwrnai i lawr y mynydd i Lanberis. Rhyw ddeng munud wedi gadael y copa, gwelodd y gyrrwr a'r taniwr (Robert Owen o Gwm-y-glo) fflamau yn y niwl rai llathenni i ffwrdd. Stopiwyd y trên, a oedd yn cario tua 60 o bobl, ac aeth y gyrrwr a'r taniwr i weld beth oedd achos y fflamau gan ganfod awyren yn llosgi. Oherwydd y llanastr ar y lein bu'n rhaid i'r trên ddychwelyd i'r copa.

Awyren *Avro Anson*, ar daith o Aldergrove, Gogledd Iwerddon i Landochau, ger Caerdydd, oedd wedi cael ei dal yn y storm a phlymio i ochr y mynydd gan ladd y tri teithiwr.

Oherwydd y ddamwain, a hefyd oherwydd y tywydd echrydus, bu'n rhaid i 120 o deithwyr aros yn y gwesty ar gopa'r Wyddfa hyd fore Mawrth cyn i'r lein gael ei chlirio.

Mae angen mwy o wybodaeth am y ddamwain. Oes rhywrai o'r fro yn ei chofio? Pwy oedd y gyrrwr a'r taniwr? Beth am aelodau eraill o staff lein yr Wyddfa? Beth am y tîm achub? Os oes unrhyw un â gwybodaeth am y digwyddiad hwn, cysyllter â Dafydd Whiteside Thomas, 'Bron y Nant', Llanrug (ffôn: Caernarfon 3515).



THE SEIONT MANOR HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY



Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

I glywed mwy Ffoniwch 673366 a gofynnwch am Maggie

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Llongyfarchiadau i Carys Owen, Berwyn, ar enedigaeth merch fach, Sioned Eleri, ar Fehefin 1af.

Diolch: Dymuna Carys Owen, Berwyn, ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur genedigaeth Sioned Eleri. **Clwb 200 Y Neuadd:** Enillwyr mis Mai oedd — £20: M. Evans, Swyn Eryri (79); £10: K. Williams, Gerddi (87); £5 yr un i: N. Ll. Griffiths, Glan Dŵr (197); E. Sharpe, Ael-y-bryn (77); E. Pritchard, 1 Bro Rhos (16); G. W. Jones, 14 Tan-y-cae (146); E. Roberts, Bryn Rhedyn (67); E. Owen, 20 Cremllyn (80); C. Morrey, Treflyn Stores (45); M. Druce, Arfryn, 9 Tan-y-cae (183).

Priodas yn Awstralia: Mae Hefin ag Alwena Jones a Gareth, Stad Eryri, wedi mynd draw i Awstralia i briodas eu mab, Meirion. Dymuniadau gorau i Meirion a phob hwyl i Hefin, Alwena a Gareth.

Urdd: Cymerwyd rhan gan nifer fawr o aelodau'r gangen leol ym Mabolgampau Arfon yn ddiweddar, gyda'r canlynol wedyn yn cynrychioli'r gangen ym Mabolgampau'r Sir ym Mangor y mis nesaf — naid hir: Emma Burnand, Bethan Fôn Jones, Mark Williams; taflu pêl: Susan Thomas; tîm cyfnewid dan 10: Mark Williams, Jonathan Jones, Owain Siôn Williams a Dewi Roberts.

Lleolwyd y canlynol yn drydydd: Llinos Mair Williams, Julie Burnand, Gwenan Michael, Irfon Hughes, a'r tîm cyfnewid dan 12 oed: Irfon Hughes, David Peters, Dylan Davies, Gary Williams. Cafwyd ymgais ardderchog gan y tîm i gyd, ac ar derfyn y cystadlu roedd Bethel yn drydydd.

Cronfa Cancr Macmillan: Yn ddiweddar cafwyd adroddiad yn y wasg leol fod £108.43 wedi ei gasglu ym Methel a Llanddeiniolen gan Maldwyn Hughes, 27 Bro Rhos. Mae'r rhan fwyaf o bobl y pentref yn adnabod Maldwyn ac yn ymwybodol o'r ffaith ei fod yn aml yn casglu at achosion da. Mae wedi bod yn casglu at y Gronfa yma ers tua wyth mlynedd, ac yn amcangyfrif fod y cyfanswm a gasglodd ychydig dros £800.

Ysgol Feithrin: Yn ddiweddar aeth 24 o blant yr Ysgol Feithrin ar ymweliad â'r Ysgol Gynradd, er mwyn cyfarwyddo ychydig â'u hymgylchedd newydd. Braf oedd eu gweld yn mwynhau cwmni y dosbarth Babanod a Mrs Helen Sutherland, yr athrawes. Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol yn y Caban, nos Fercher, Gorffennaf 8fed, am 7.30 Disgwylir i rieni pob plentyn sydd am fynychu'r Ysgol Feithrin yn ystod 1992-93 fod yn bresennol.

Priodas Arian: Llongyfarchiadau i Thomas Alun a Mabel Jones, Eithinog, ar ddathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Merched y Wawr: Aeth yr aelodau ar daith ddirgel nos Fercher, Mehefin 10. Ymwelwyd ag Oriel Môn, Llangefni a chafwyd amser diddorol iawn. Gorffennwyd y noson yn nhŷ bwyta Carreg Brân. Diolchodd y llywydd, Jennifer Roberts, i'r trysorydd, Edwina Morris, a'r ysgrifennydd, Delyth Williams, am eu gwaith drwy'r flwyddyn ac i

aelodau'r pwyllgor hefyd.

Enillwyr y raffl oedd — Mrs C. Hughes, Mair Jones ac Eirlys Williams. Ar ddiwedd y noson dewiswyd swyddogion newydd — Llywydd: Rhian Hughes; Is-lywydd: Eirlys Williams; Ysgrifennydd: Ann Lewis; Is-ysgrifennydd: Nora Parry; Trysorydd: Wendy Grail; Is-drysorydd: Bet Owen. Aelodau'r pwyllgor: Jennifer Roberts, Glenys Griffiths, Mair Read, Alys Jones, Mary Evans, Edwina Morris.

Cyfle i Actio: Llongyfarchiadau i Sioned Owen, Cefn Cynrig, ar gael ei dewis i chwarae rhan un o'r prif gymeriadau yn yr addasiad ar gyfer y teledu o nofel Jane Edwards 'Bleind Dê'. Bydd y ffilmio yn digwydd yn ystod yr haf.

Graddio: Llongyfarchiadau mawr i bobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn eu harthodiadau gradd ar ddiwedd eu cwrs coleg eleni. Llongyfarchiadau i Meinir D. Williams, Elan; Lynn Hardwige, Silyn, a Helen Jones, Garreg Goch, a dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i Eluned Davies, Eron, ac Anne Elis, Cilgeran, ar ennill gradd B.Add. wedi dilyn cwrs rhan-amser yn y Coleg Normal am dair blynedd.

Plaid Cymru: Bydd rhai o aelodau'r gangen yn mynd i Arwerthiant Cist Car ar 5ed Gorffennaf. Os oes gennych unrhyw beth i'w werthu gellir cysylltu â Wenna Huws ar Felinheli 671327 i wneud y trefniadau.

Clwb Ffermwyr Ieuaic Caernarfon: Daeth tymor 1991-92 i ben pan gynhaliwyd Rali Flynyddol Clybiau Ffermwyr Ieuaic Eryri ar Fai 25, ar Fferm Fron Oleu, Tremadog. Bu'r aelodau'n brysyr drwy'r dydd yn cystadlu mewn gwahanol gystadlaethau. Daeth Aled yn ail am feirniadu defaid; Llinos a Catrin yn drydydd am wisgo'r Arweinydd mewn papur. Cystadleuwyd am y tro cyntaf yn yr arddangosfa symudol, a'r thema oedd 'opera sebon'. Seliwyd arddangosfa Caernarfon ar Pobol y Cwm ac er na ddaethpwyd i'r brig cafwyd llawer o hwyl yn darparu'r arddangosfa. Ceisiwyd hefyd yn y gystadleuaethau lwc mwnci, arddangosfa coginio, gosod blodau, gwneud giât, beirniadu defaid, torri torth, gwnïo a tynnu'r gelyn. Roedd Clwb Caernarfon yn seithfed ar ddiwedd y dydd.

Nos Fawrth, 12 Mai, cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Clwb i derfynu'r tymor. Etholwyd y swyddogion canlynol — Llywydd: Mrs Freda Jones, Caernarfon; Cadeirydd: Helen Jones, Bethel; Is-gadeirydd: Tudur Parry, Caernarfon; Ysgrifennydd Rhaglen: Eurwyn Jones, Caernarfon; Ysgrifennydd Cofnodion: Llinos Jones a Wendi Thomas, Llanrug; Trysorydd: Aled Jones, Llanddeiniolen; Arweinydd: Myfanwy Jones, Bethel. Mae'r Clwb yn awr wedi gorffen am yr haf a bydd yn aildechrau ym mis Medi. Gobeithir trefnu trip yn ystod yr haf i'r aelodau.

HWYL I BAWB O'R
FRO FYDD YN CYSTADLU
YN EISTEDDFOD
GENEDLAETHOL

CEREDIGION, ABERYSTWYTH

O SIAMBR SELWYN

Mi fydda i'n cael sawl gwahoddiad bob blwyddyn i ymweld â nifer o Ysgolion Cynradd ac Uwchradd i sgwrsio hefo'r plant am farddoniaeth ac i feirniadu adrodd a llên yn eisteddfodau'r Ysgolion Uwchradd, a rhaid i mi gyfaddef mi fyddai'n cael pleser mawr wrth gyflawni'r gwaith. Calondid hefyd yw derbyn gwaith mor raenus ac aeddfed gan ddisgyblion Ysgolion Uwchradd yn yr eisteddfodau hyn.

Mi fyddai'n derbyn holiaduron yn achlysurol hefyd, ran amlaf gan ddisgyblion Ysgolion Uwchradd a myfyrwyr colegau. Gofyn am fanylion bywgraffyddol, a holi ynglŷn â'm profiadau hyd lwybrau'r awen fydd yr holiaduron hyn yn naturiol, a gwaith hawdd fydd ateb y cwestiynau.

Ychydig wythnosau yn ôl, mi ges i wahoddiad i ymweld â fy hen ysgol — Ysgol Bethel — ac mi dderbynais holiadur i'w lenwi hefyd. Roedd yr holiadur hwn yn un cwblwahanol i'r arferol, a rhaid i mi gyfadde' i mi fethu ag ateb rhai o'r cwestiynau. Ond eto, rhaid i mi longyfarch y plant, a diolch iddyn nhw am roi cyfle i mi lithro'n ôl dros ysgwydd y blynyddoedd, a cheisio chwarae eto ar fideo'r cof, ddyddiau difyr fy mhientyndod pell yn Ysgol Bethel. Ia, pnawn difyr oedd y pnawn a dreuliais yn fy hen ysgol yn sôn am yr hen ddyddiau.

Sut deimlad oedd hi'r diwrnod cyntaf? — dyna un cwestiwn na fedrais ei ateb, gan nad wyf yn cofio dim am brofiadau'r diwrnod hwnnw. Mae gen i ryw gof mai Miss Owen oedd enw'r athrawes, ond fedrwn i ddim ateb y cwestiwn, **a oeddwn yn ei hoffi ai peidio?** Mae'n debyg fy mod i, neu mi fyddwn yn siŵr o gofio os oedd hi'n un flin a châs!

Fedrwn i ddim peidio â chofio fy athrawes yn Dosbarth 1, 2 a 3, gan ei bod hi yn chwaer i fy nhad — Anti Gwawr — Miss Griffith i bawb arall. Na, ches i ddim ffafr o gwbl ganddi, yn wir, anfantais i mi fu'r berthynas gwaed a oedd rhyngom. Oedd, roedd Anti Gwawr yn waeth na'r frân wen am gario clecs i fy rhieni am fy nrygioni a fy niogi yn yr ysgol.

Ar lechen las y byddwn i'n ymlafnio i wneud syms ac i sgwennu yn nosbarth Anti Gwawr. Gwlychu'r mynych gamgymeriadau a wnawn gyda phoeriad slei, a sychu'r lechen las hefo penelin fy jersi, gyda'r canlyniad y byddai twll parhaol ar benelin pob jersi a feddwn.

Tân glo fyddai'n twymo dosbarth Anti Gwawr, ac o flaen y tân yn

foreol mi fydda' 'na gatradd o boteli llefrith yn c'nesu. Mi fydda ni'n cael tabledi *cod liver oil* hefyd — ych a fi — a buan iawn y down i a fy nghyd ysgolheigion i sylwi mai lle cyfleus i gladdu'r tabledi melyn oedd yn y botel inc a swatiai ar ganol ein desg, gyda'r canlyniad y byddem yn pysgota'r capsiwls crynion ar flaen ein pin dur, pan ddaethom yn ddiweddarach yn blant *mawr* ac i gael dechrau sgwennu ar bapur hefo inc.

'Doedd 'na ddim cinio ysgol yr adeg honno. Mynd adref yr oeddwn i nôl cinio, a fy ffeifryn oedd brechdan sôs coch, ond ar dywydd mawr mi fyddwn yn mynd â brechdanau hefo fi i'r ysgol.

Fydddech chi'n dod i'r ysgol hefo beic? — dyna gwestiwn arall a ofynwyd i mi. Na, anrheg am basio'r 'sgolarship' oedd beic, ac wrth ffarwelio ag Ysgol Bethel, fel llawer o'm cyfoedion, y deuthum i yn berchennog ar feic. Ond, mi fyddwn i yn mynd i'r ysgol yn aml hefo *cylchyn a bachyn*, ac yn rowlio hen deiar car hefo pric tân, yr holl ffordd o Bryn Alun. Ac, wrth gwrs, mi fyddai iard yr ysgol yn un ffair o gemau marblis tua adeg Diolchgarwch bob blwyddyn, a mawr fyddai'r taeru, a'r chwarae'n troi'n chwerw, o achos marblan.

Oedd y gwaith yn anodd? Roedd dysgu tablau yn anodd. £sd, a 16 ownsus = 1 pound; 14 pounds = 1 stone; ac yn ein blaen hyd at dunnell. Hefyd — twelve inches = 1 foot, three feet = one yard, ac ymlaen nes cyrraedd milltir — a dysgu'r cyfan yn Saesneg - fel parot. Yna, wedi meistrolu'r tablau dyrys, gwneud symiau cwblw ddi-bwrpas fel, 'how many inches in 1¼ miles?' neu 'how many ounces in 1½ tons?' Do, mi glywais i y geiriau 'stocks and shares' yn Ysgol Bethel hefyd — ond doedd gen i ddim syniad beth oeddwn nhw.

Mi fydda Miss Bishop o Fangor yn galw'n achlysurol. Arolygydd Ymarfer Corff oedd hi — hen ddynas gâs — a gwae ni os na fedrem gyffwrdd â bodiau ein traed heb blygu ein penna glinia. Slap hegar ar

ein pen ôl fyddai'r gosb. Byddai rhoi cosb gyffelyb yn ddigon i athro golli ei swydd heddiw.

Roeddwn ni'n cicio pâl ar iard yr ysgol fel plant pob oes, ac mi fyddai'r bêl yn aml yn cael ei chicio dros y wal fawr i Gors Llwyn Bedw — neu'r Gors Fawr. Rhaid fyddai dringo dros y wal i nôl y bêl. Sylwais pan oeddwn yn Ysgol Bethel y dydd o'r blaen, nad oedd wal Gors Fawr mor uchel ag yr oedd hi yn y tridegau. Pam tybed?

Ar iard Ysgol Bethel y bûm i'n breuddwydio mai fi oedd Stanley Mathews, ac mae'r sied a fu'n Yankee Stadium yno o hyd. Yn y sied hon bu'r frwydr fawr rhwng Huw Cefn Rhyd a minnau. Huw oedd Tommy Farr, a minnau dan fy wyneb *blac-led* oedd Joe Louis.

'Erys craith dan fy llygad hyd heddiw Yn farc o fuddugoliaeth Farr.'

Do, daeth fy ymweliad â'm hen ysgol â llawer o atgofion yn ôl i mi. Fel y dywedais, nid wyf yn cofio fy niwrnod cynta' yno, ond rwy'n cofio'r diwrnod olaf. Diwrnod dagreuol oedd hwnnw. Diwrnod cloi'r bennod gynta' o bosib.

Un gwael fûm i am ffarwelio erioed.



Llyn Padarn wedi rhewi yn 1963. O'r chwith i'r dde: Bryn Lewis, Meirion Davies, Owen Roberts, Alwyn Griffith, Alan Wagner. Diolch i Meirion Davies, Carmel, am gael benthg y llun hwn.

**Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri
am brisiau rhesymol
ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun – Gwener
10.00 – 3.30

I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch

**Llanberis 870922
neu Bangor 351427**

Lythyr O Brunai

Chwe wythnos i fynd ac fe fyddaf wedi cwblhau blwyddyn ysgol ym Mrunei. Yr amser wedi gwibio heibio ac erbyn hyn rwy'n edrych ymlaen at gael dod adref i weld pawb, yn enwedig fy rhieni, Nei y ci a'm ffrindiau lu wrth gwrs.

Wedi treulio pymtheg diwrnod diddorol iawn dros wyliau'r Pasg ar ynys Java a Bali yn Indonesia. Y tywydd yno, er mor boeth, ddim hanner mor llaith ag ydyw yma, a doedd dim hanner cymaint o 'sand flies' yno chwaith.

Y bobl yn hynod o ffeind, ar wahân i'r rhai hynny a geisai werthu dillad i chi ar y traeth yn Bali. Profiad digon annifyr oedd cael merched o bob oed yn erfyn arnoch i brynu rhywbeth ganddynt, a phan roeddych yn gwrthod, roedd ambell un yn gallu bod yn ddigon cas.

Kuta yw'r lle i'w osgoi os am gadw'n glir oddi wrth y 'gwerthwyr' yma, ond os am le oddi wrth brysurdeb y traeth, yna'r lle i chi ydy Ubud, sydd yng nghanol y mynyddoedd. Digon o fywyd gwyllt naturiol yn ogystal ag ambell ystlum anferth oedd yn mynnu rhannu stafell efo'r ddwy ohonom un noson!

Wedi cerdded ar losgfyndd yn Java — llosgfyndd a ffrwydrodd ychydig flynyddoedd yn ôl, ac sy'n dal yn effro iawn. Bum yn berwi wyau yn y dŵr berwedig yn ogystal ag ymdrochi yn yr 'hot springs' gerllaw. Tawel iawn oedd y mynydd y diwrnod hwnnw, diolch brynl!

Mae'r glaw wedi cyrraedd o'r diwedd a phawb yn falch iawn, gan fod yr holl dannau wedi achosi difrod mawr i'r fforestydd glaw. Roedd yn bwrw mor drwm echdoe, fel bod yr ardd o amgylch y tŷ yn llyn o ddŵr o fewn deng munud, a dim blewyn o wair i'w weld yn unman. Dwy awr wedyn, roedd pobman yn sych grimp unwaith yn rhagor.

Mae hi'n hanner tymor yma rŵan ac rwyf am dreulio deuddydd mewn tŷ hir yn Limbang, Sarawak, i ddatlu eu cynhaeaf reis. Yn ôl y sôn, deuddydd o ddawnsio traddodiadol Ibanaidd, yn ogystal ag yfed eu gwin reis enwog!

Mwy am hynny, a rhagor, y mis nesaf os byw ac iach.

Hwyl,
DELYTH

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres

Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

DINORWIG

MAE ARNOM ANGEN GOHEBYDD I DDINORWIG

Hwyl Haf — dydd Sadwrn, Gorffennaf 11eg o 1.30 ymlaen: la dim ond wythnos dda i fynd cyn y bydd Hwyl Haf yn cael ei gynnal yn Yr Allt Ddu. Gobeithio y cawn dywydd braf ac y daw nifer dda i gefnogi'r fenter sydd wedi profi yn ddigwyddiad llwyddiannus a llawn hwyl bob blwyddyn. Bydd nifer o atyniadau wedi eu paratoi ar eich cyfer, sef y castell neidio, cystadleuaeth 'Carioci', gwisg ffansi (plant ac oedolion) a 'car mis mêl' (addurno eich car ar gyfer achlysur cwpl priod yn mynd ar eu mis mêl) a llu o bethau eraill. Felly — pnawn yn llawn hwyl. Ewch ati yn awr i baratoi ar gyfer y cystadlaethau. Wrth gwrs fe fydd paned, diodydd ysgaf, teisennau, a hufen iâ ar gael. Bydd pris mynediad yn 50c i oedolion (gan gynnwys tocyn raffl) a 20c i blant. Cofiwch ddod i gael hwyl.

Llongyfarchiadau i Miss Falmai Davies, 10 Bro Elidir, ar ei phenodiad fel dirprwy-brifathrawes Ysgol Hirael, Bangor. Bydd yn cychwyn ar ei swydd newydd ym mis Medi. Dymunwn bob llwyddiant iddi.

Dathlu pen-blwydd: Profodd mis Mehefin yn garreg filltir arbennig iawn i fwy nag un person o'r pentref. Bu Miss E. Thomas, Llidiart y Clo a Mrs A. Thomas, Creigle gynt, yn dathlu eu pen-blwydd yn 80 oed; tra sylwodd darllenwyr y *Daily Post* (a welsoch y llun?) bod Mr Derek Williams, Bron Eilian, yn dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed. Llongyfarchiadau mawr i'r tri ohonynt.

Gwelliannau: Eisoes mae'r Cyngor Sir wedi llwyddo i osod canllaw newydd ar Lwybr Foel (dros y ffordd i'r Ganolfan) ac hefyd mae bwriad yn y dyfodol agos i roi wyneb newydd i'r ffordd sydd yn mynd heibio Capel Sardis i'r Foel. Diolch i'r Cyngor am wneud y gwaith. Yn anffodus nid yw yn ymarferol bosibl i osod lamp rhwng Glan Gors a Bwlch Gwynt. **Diolchiadau:** Dymuna Miss Florrie Davies, 3 Bro Elidir, ddiolch o galon i'w holl berthnasau, cymdogion a chyfeillion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd ganddynt tra yn Ysbyty Gwynedd ac Eryri. Hefyd diolch yn fawr iawn i holl staff y ddau ysbyty am eu gofal arbennig. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Elizabeth Jones (9 Maes Eilian gynt) ddiolch i bawb am bob arwydd o

gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl a hynny mor annisgwyl.

Arholiadau: I bawb o'n pobl ifanc sydd wedi gorffen, neu yng nghanol eu arholiadau, dymunwn pob llwyddiant iddynt. Pob hwyl i Sara Wood, Fron Heulog, yn ei harholiadau TGAU ac wrth iddi baratoi i fynd ar daith gyda Cherddorfa Ieuencid Gwynedd i'r Almaen am bedwar niwrnod yn ystod mis Gorffennaf, ac yna yn ddiweddarach i berfformio yng Ngŵyl y Gerddi, Glynebwy.

Y Ganolfan: Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol y Ganolfan, dan lywyddiaeth Mr Derek Williams, ar nos Fawrth, 9fed o Fehefin. Fe ddaeth nifer mwy nag arfer i'r cyfarfod ac fe roddwyd croeso arbennig i'r Cynghorydd Sir, Mrs P. Larsen. Ail-etholwyd y swyddogion gyda un eithriad, sef Mrs Caren Jones i rannu baich swydd ysgrifenydd gyda Mrs Hannah Roberts. Cyflwynwyd a chymeradwywyd y fantolen ariannol flynyddol a diolchwyd i Miss Marian Jones am ei gwaith fel trysorydd. Hefyd gyda mantolen ariannol y clwb snwcer a baratawyd ac a gyflwynwyd gan Mr Rennell Williams. Adroddwyd bod tipyn o waith atgyweirio wedi ei wneud yn y Ganolfan yn ystod y flwyddyn a bod bwriad yn y dyfodol agos i wneud gwaith peintio yn yr ystafell fawr. Soniodd cynrychiolwyr Clwb Gwerin y Coed eu bod, o ganlyniad i'w hymgyrch diweddar o ddacluso'r pentref, yn awyddus i osod bin sbwriel mewn rhan o'r pentref. Cytunwyd mai y man gorau fyddai wrth y fainc newydd ar y ffordd i'r Allt Ddu. Gofynwyd hefyd i'r Cynghorydd P. Larsen i wyntyllu sawl mater sydd wedi poeni'r ardalwyr ers tro ac addawodd y buasai yn adrodd yn ôl pan gynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor.

Yr Wyl Bregethu: Ers blyneddodedd lawer mis Mehefin yw mis y Cyfarfodydd Pregethu yn y pentref ac nid oedd eleni yn eithriad. Ar y Sulgwyn cynhaliodd aelodau Capel Sardis eu Gŵyl Bregethu a'r pregethwr gwadd eleni oedd y Parchg I. Gwyn Rogers, Treherbert, Dyfed. Yn Eglwys St. Mair ar yr 21 o Fehefin cynhaliwyd yr Wyl Bregethu dan arweiniad y Parchg

Tegid Roberts, gyda'r Parchg Aled Edwards, Ficer Botwnnog, yn pregethu. Diolch i'r ddau am eu harweiniad ac i Mrs Gwen Griffith am ei gwaith wrth yr organ. Dymuna swyddogion Capel Sardis ac Eglwys St. Mair ddiolch am y gefnogaeth a ddangoswyd iddynt gan aelodau enwadau eraill i'r gwyliau pregethu.

Talwrn y Beirdd: Cafwyd noson i'w chofio pan recordiwyd rhaglen 'Talwrn y Beirdd' gan y BBC yn y Ganolfan, ar nos Fawrth, 16 Mehefin. Gyda'r Prifeirdd Gerallt Lloyd Owen a Dic Jones wrth y llyw cafwyd gornest ddiddorol a hwyliog rhwng timau talentog Caernarfon a'r Waunfawr. Synnwyd pawb gan glyfrwch y naill dim a'r llall wrth iddynt ymateb i'r tasgau a osodwyd iddynt. Edrychwn ymlaen i ailfwy y

profiad pan glywn y rhaglen ar Radio Cymru o fewn yr wythnosau nesaf. **Dymuniadau da** i Mrs Betty Roberts, 11 Maes Eilian, a fydd yn mynd am lawdriniaeth yn ystod mis Gorffennaf; ac i bawb arall nad ydynt yn mwynhau iechyd da ar hyn o bryd. **Plygu'r Eco:** Cofiwch mai ein tro ni fel pentref fydd plygu'r Eco y tro nesaf, a hynny ar nos Iau, Medi 10fed am 6.30. Braf fyddai gweld nifer ohonoch yn dod i'r Ganolfan y noson honno er mwyn ysgafnhau y gwaith i bawb.

Dal i obeithio! yr ydym am ohebydd newydd ond hyd yn hyn heb fawr o lwyddiant. Os oes unrhyw un â diddordeb yna cysylltwch ag un o swyddogion yr Eco. Yn y cyfamser, gwyliau da i bob un ohonoch.

W. H. JONES

TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS


Ffôn: Llanberis
871470

Cotractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.

cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

DAVID CLOUGH

Ynysoedd
WAUNFAWR
Ffôn: 282

Paentio a Addurno
Gwaith Atgyweirio
'Estimates' am ddim

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth


E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR


Ar Agor
9-7pm
9-7pm Sadwrn
Argau
Sul a Mercher



Dewis eang o
Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Lleni 'Roler'.
Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 291

CROESAIR GORFFENNAF




AR DRAWS

- 1. Talu o'r banc (4,7)
- 8. Ysgubor y Ceirch (5)
- 9. Arbennig i fachu pysgodyn (5,2)
- 10. Selwyn neu Gerallt (7)
- 11. Mieri (5)
- 12. Mân bryfetach gwallt (3,3)
- 14. Prif wlad Ewrop tybed (6)
- 18. Ysbryd y Drain (5)
- 19. Mynyddoedd Meirion (7)
- 21. Bathodyn y Blaid (1,6)
- 23. Dyma yw Diwedd y Dasg (Acronym) (5)
- 24. Mwynhau dydd olaf yr wythnos (6,5)

I LAWR

- 1. Nid yw rhan o'r gwrych yn agos (4,3)
- 2. Unedau grym o'r Wylfa (7)
- 3. Mae ef wedi dychryn (5)
- 4. Mae ef yn teilyngu, ar lafar (1,5)
- 5. Tâl i geisio gwneud i fyny (7)
- 6. Bwyd llwy (3)
- 7. Gair neis am hyll (5)
- 13. Digon cyfarwydd i sgwrsio (7)
- 15. Y bachgen a'i traddododd yn y Sêd Fawr (5,2)
- 16. Dadleuwr (7)
- 17. Tŷ a berthyn i Bendefig (6)
- 18. Erfyn hollti (5)
- 20. Brawd i'w ewythr (2,3)
- 22. I ganfod yr enillydd (3)

ATEBION I GROESAIR MEHEFIN



Unwaith eto, cadwyd y postmon mewn gwaith wrth inni dderbyn nifer dda o geisiadau i'r pŵs y mis diwethaf. Mae'r ymgeiswyr lleol yn

cynyddu o fis i fis ac mae'n cefnogwyr o ardaloedd pellach yn parhau i'n cefnogi. Aiff y wob y mis hwn tros y mynydd i MARIAN ELERI JONES, HENWALIA, 9 RHOS Y COED, BETHESDA ac estynnwn ein llongyfarchion iddi. Bu i ryw bedwar ei methu hi ar ambell i ateb ond pawb arall gyda chynigion hollol gywir.

Cofiwch fod gennych ddeufis i ateb y tro hwn. Felly, atebion y croesair presennol i sylw IFOR GLYN EFANS, AFON GOCH, DEINIOLLEN, erbyn 28ain Awst fan bellaf. Manteisioch ar y cyfle i ddiolch i bob un ohonoch am eich cefnogaeth tros y misoedd diwethaf a bo ichwi fwynhau'ch gwyliau haf yma.

Dyddiadur y Mis

GORFFENNAF

- 2 Iau. Bethel: Plygu'r Eco.
- Brynrefail: Cymdeithas y Chwiorydd.
- Llanrug: Pwyllgor y Seindorf am 7.
- 3 Gwener. Cwm-y-glo: Barbeciw yr Ysgol. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.
- 4 Sadwrn. Penisarwaun: Trip yr Ysgolion Sul.
- 5 Sul. Llanberis: Henaduriaeth Arfon — Dosbarth Padarn — Cymanfa Ganu yn y Capel Coch am 6.
- 8 Mercher. Bethel: Yr Ysgol Feithrin — Cyfarfod Blynnyddol yn y Caban am 7.30.
- 10 Gwener. Penisarwaun: Carnifal y Pentref — Noson i'r Plant. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.

- 11 Sadwrn. Dinorwig: Hwyl Haf '92.
- 13 Llun. Brynrefail: Sefydliad y Merched — Trip Dirgel. Waunfawr: Trip yr Ysgol Feithrin.
- 15 Mercher. Yr Aardal: Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa. Ymgynnall ger Capel Hebron am 7.
- 16 Iau. Llanrug: Y Band — Sêl Cist Car ar iard yr Ysgol am 6.30.
- 17 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.
- 21 Mawrth. Caeathro: Pwyllgor y Cae Chwarae — Cystadlaethau.
- 23 Iau. Caeathro: Pwyllgor y Cae Chwarae — Cystadlaethau a Barbeciw.
- 27 Llun. Llanrug: Tombola yn Ystafell y Band.
- 31 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.



Nicola Jones, Lanrug, a fydd yn aelod o dîm nofio Caernarfon yng Nghyng-hrair yr Arfordir, dydd Sadwrn, Gorffennaf 4ydd, yn Nhreffynnon.

Newyddion Llanberis (parhad)

Yr Ysgol Feithrin: Bu'r plant yn canu hwiangerddi mewn bore o gân yn festri Capel Coch ar Fehefin 25. Diolch i Anti Catherine ac Anti Jan am eu holl waith.

Ysgol Dolbadarn: Bu'r plant hŷn yr ysgol ar drip i Chwarel y Llechwedd ar Fehefin 30; a'r plant iau ar drip yn Sŵ Bae Colwyn y diwrnod wedyn. Trip yr Ysgol Sul: Bydd y pentref yn wag ar orffennaf 4ydd gan fod yr Ysgolion Sul yn cael eu trip blynnyddol i'r Rhyl. Hwyl i bawb a gobeithio bydd yr ychydig law a gafwyd y ddyddiau cynt yn cadw draw.

PWY SY' AM SYMUD?

Byrhau mae'r seibiant a gaiff pêl-droedwyr yn ystod yr haf. Syndod i mi yw gweld cymaint sydd wedi ymlafnio trwy'r gaeaf — ar Sadwrn a'r Sul — ac yna yn chwarae yng nghyng-hrair yr haf. A yw cymaint o gemau yn ffactor yn nirywiad safon y gemau yn y cyng-hreiriau lleol. Cic i lawr y cae, ac ar ei hôl hi yw hi yn aml. Mae driblo yn beth prin iawn, a braf yw gweld Dilwyn John ar ddiwrnod da. Bydd syrffed o gemau y tymor nesaf, gyda chynghreiriau Gwynedd a Sain wedi derbyn mwy o glybiau. Gyda 17 o glybiau, 4 cwpan a'r Cwpan Iau, bydd cryn broblem trefnu gemau cynghrair Sain. Mae nifer o'r timau hyn yn ail dimau. Bydd yn galonidd i'r timau hyn, fod y gynghrair wedi llacio ar y nifer o gemau y gall chwaraewyr chwarae mewn cynghrair uwch, a dal i chwarae yng nghwpanau Sain. (Trafodwyd y pwynt yma yn y rhifyn diwethaf o'r Eco.)

Mae rheolwyr y timau lleol eisoes yn hel tîm ar gyfer y tymor nesaf. Bydd ANDREW WAKEHAM yn symud o Lanrug i Lanberis. Yn ymuno ag o bydd JAMIE RICHARDSON, gynt o glybiau cylch Caernarfon a Llanrug. Bu cryn ddyfalu os buasai carfa gref Llanrug yn chwalo gyda ymadawiad Howyn a Dafydd Mona. Yn ôl MALDWYN WILLIAMS, y rheolwr newydd, mae naw o garfan y llynedd eisoes wedi ail arwyddo.

TARIAN PÊL-DROED CYNRADD YR ECO



Tim llwyddiannus Llanrug yn derbyn y darian oddi wrth Howyn Jones, cyn-reolwr tîm Llanrug.



Tim Bethel a ddaeth yn ail am y darian.

CHWARAEON

Lle'r Pwyllgor Cynllunio yn Natblygiad Chwaraeon

Tynnodd Arthur Emyr dipyn o nyth cacwn i'w ben yn ystod Eisteddfod yr Urdd yn Rhuthun pan awgrymodd y dylasai'r Urdd wneud a chyfrannu mwy ym myd y campau.

Gwn o brofiad na all y sawl sy'n cynnal adrannau'r Urdd yn lleol roddi mwy o'u hegni na'u hamser. Nhw yn aml sy'n cynnal a chefnogi llawer o gymdeithasau eu broydd. Yn sicr mae ganddynt y gallu i ddenu torfeydd da o bobl ieuainc o 7 i 12 oed. Mae chwaraeon yn chwarae rhan yn eu rhaglenni blynyddol, er rhaid cyfaddef bod llawer mwy o egni yn cael ei sianelu at eisteddfota mewn llawer i gangen.

Y mae sylwadau Arthur Emyr yn dal dŵr os newidir y frawddeg gyntaf i sôn am gymunedau lleol yn hytrach na changhennau'r Urdd. Y mae talentau di-ri yn ein broydd, ond bod

diffyg hyder neu frwdfrydedd i sefydlu clybiau chwaraeon. Nid oes dim o'i le mewn cael campfa fechan mewn pentref. Neu glwb badminton, bowlio, pêl-fasged, etc. Dydy pob bachgen ddim yn hoffi pêl-droed., Pa glybiau sy i ferched ym mro'r Eco? Beth sydd o'i le ar gynghrair pêl-rwyd Gwyrfa, neu gynghrair ryng-bentrefol hoci? Pam nad oes merch wedi ei chynnig ar gyfer Tlws y Mis hyd yma? Efallai bod nifer ohonoch yn cytuno â'r sylwadau. Yr ymateb arferal fyddai, 'lawn, trefna di y gystadleuaeth, ac fe wnawn ni gymryd rhan'. Yr hyn mae Arthur yn ei awgrymu dybiwn i yw fod y 'trefna di' yn dod yn 'trefnwch chwi'. Y chwi

yma yw cynifer o bentrefwyr neu ardalwyr, fel pwyllgor chwaraeon aml-bwrpas.

Teimlaf bod gan y Cyngor Bwrdeistref — trwy ei bwyllgor cynllunio — ran allweddol i chwarae yn y datblygiad yma. Mae llawer o'r farn bod llawer gormod o ddatblygiad tai ym mro'r Eco. Mae pwyllgor Arfon ar hyn o bryd yn ail-wampio eu cynllun fframwaith parthed tir ar gael i'w ddatblygu. Onid ddylid nodi tir yn y cynllun fframwaith hwnnw yn unswydd ar gyfer adloniant?

Gallai pwyllgor lleol wedyn benderfynu pa ddefnydd y gallai y gymuned ei wneud o'r tir — yn gae chwarae, parc, lawnt fowlio, tenis, etc.


Onid yw'r digwyddiadau diweddar yn Neiniolen yn ein dychryn, ac yn dangos pa demtasiynau sy'n wynebu pobl ieuainc, sy'n llenwi eu nosweithiau amser hamdden yn cerdded o amgylch y pentrefi, neu yn loetran ar gornel stryd.

Unrhyw ymateb?

TLWS Y MIS


Un ffordd o ddangos parch ac edmygedd ers talwm oedd dweud fod person wedi 'ymladd yn galed' i gael llwyddiant. Dyna yn llythrennol yw'r disgrifiad o enillydd tlws mis Mehefin. Mae KENNY JONES, o Lanrug, eisoes wedi cael sylw yn y golofn am ei orchestion yn lleol.

Yn ddiweddar, mewn noson gymdeithasol yn Y Rhyl, dyfarnwyd tlws 'y bocsiwr mwyaf addawol' i Kenny. Yr hyn sy'n orchestol yw fod y tlws ar gyfer talaith gogledd Cymru a rhan helaeth o ogledd-orllewin Lloegr. Braf yw cael cyflwyno'r Tlws i un ymroddedig mewn camp ble mae'r cyfleusterau yn lleol yn wantan.



Kenny gyda'r Tlws a dderbyniodd yn Y Rhyl.

AR Y Ffordd i GAERFYRDDIN



Manon a Gareth, dau o'r pedwar sy' ar y ffordd i Gaerfyrddin. Nid oedd Eryl a Raphael yn bresennol oherwydd arholiadau pan dynnwyd y llun.

Soniwyd yn rhifyn mis Mai fod cynrychiolaeth dda o Ysgol Brynrefail yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Athletau Ysgolion Gwynedd. Mae gan yr ysgol record dda iawn dros y blynyddoedd ar y lefel yma. Bydd enillwyr y gwahanol gystadlaethau yn cynrychioli Gwynedd ym Mhencampwriaeth Cymru yng Nghaerfyrddin ddechrau mis Gorffennaf. Braf cofnodi y bydd pedwar yn mentro am y De — record anhygoel o gofio mai Brynrefail yw un o'r ysgolion uwchradd lleiaf yng

Ngwynedd.

Y pedwar fydd yn cynnal y traddodiad fydd: GARETH PARRY (Llanrug) — taflu'r ddisgen (15); RAPHAEL GINSBERG (Bethel) — taflu'r picell (17); ERYL ROBERTS — disgen (17); MANON WILLIAMS (Llanberis) — 200m a'r naid hir.

Tra'n ennill cystadleuaeth y naid hir estynnodd Manon record yr ysgol i 4m 56cm. Llongyfarchiadau iddi. Beth fuasai ei thad yn ei roi am yr un llwyddiant ar Faes Padarn? Pob lwc iddynt i gyd yng Nghaerfyrddin.

Y Gamp Driphlyg

Mae sawl un wedi sôn wrthyf mor braf oedd nodi torri recordiau athletau Ysgol Brynrefail — a phwy oedd cyn-ddeiliaid y record. Mae traddodiad gwych o gofnodi recordiau yn yr ysgol — a rhoddir cryn bwyslais ar y system dai. Mae hyn yn bendant yn helpu i hybu teyrngarwch, ac yn cadw'r cysylltiad yn fyw yng nghof cyn-ddisgyblion.

Cafwyd mabolgampau llwyddiannus iawn yn yr ysgol eleni. Ni lwyddwyd i dorri unrhyw record, ond mae argoelion bod nifer o athletwyr aml-dalentog yn yr ysgol. Fel prawf o hyn enillodd MANON WILLIAMS 47 pwynt i dŷ Gwyrfa, a MARTIN PARRY (Bl.2) 50 pwynt i dŷ Eilian.

Uchafbwynt y diwrnod wrth gwrs yw cyflwyno llawryfon y Victor Ludorum a'r Victrix Ludorum. Y ddau llwyddiannus — a hynny am y

trydydd tro — oedd JONATHAN DAVIES (enw da i un ym myd y campau!) gyda 58 pwynt, a CAITLIN WROE gyda 50 pwynt.

I chwi, gyn-ddisgyblion Brynrefs, dyma fel y safai'r tai ar ddiwedd y diwrnod: Gwyrfa 366; Eilian 352; Eryri 333; Elidir 296.

Bydd angen gwell tyrbein ym mol Elidir y flwyddyn nesaf.



Rhes gefn: Jackie Gibbins, Jonathan Davies, Caitlin Wroe, Catrin Jones. Eistedd: Manon Williams, Ryan Kift (y ddau o dŷ Gwyrfa).

TLWS PÊL-DROED ECO'R WYDDFA



Y timau a gymrodd ran yn Nhllws yr Eco. (Mwy o luniau ar dudalen 19.)

Tarian arall i bentref Llanrug

Wedi seibiant o ryw bedair blynedd, ail gyfodwyd tarian pêl-droed adran cynradd yr Eco. Cystadleuaeth 8-bob-ochr gafwyd eleni, a gyda chymorth parod y prifathro a'r staff, cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn ar gae Ysgol Gynradd Llanrug. Pum tîm oedd yn ymgiprys, Llanrug, Bethel, Deiniolen a dau dîm o Lanberis. Roedd pob tîm yn chwarae yn erbyn ei gilydd mewn gêm 10 munud o hyd. Braf cofnodi fod y gystadleuaeth wedi ei chwarae mewn ysbryd gwych, ac ni chafwyd

rhag mewn dwy awr — tipyn o gamp! Noson o goliau gwych, arbedion anhygoel a thaclo cadarn a gafwyd, a gwên ar wyneb pawb ar ddiwedd y noson. Rwy'n siŵr y bydd cryn edrych ymlaen am gystadleuaeth y tymor nesaf. Y tabl terfynol oedd:

	Ch	E	C	Ci	P
Llanrug.....	4	3	1	-	11
					(+14)
Bethel.....	4	3	1	-	11
					(+10)
Llanberis 'A'.....	4	2	-	2	8
Deiniolen.....	4	1	-	3	6
Llanberis 'B'.....	4	-	-	4	4